

BIL OMBWDSMON GWASANETHAU CYHOEDDUS (CYMRU) – GWELLIANNAU CYFNOD 2 GAN YR AELOD SY’N GYFRIFOL

Mae’r tabl hwn yn rhoi gwybodaeth am y gwelliannau a gyflwynwyd yn enw Llyr Gruffydd AC ar 16 Ionawr 2019.

| Rhif | GWELLIANT SAESNEG | GWELLIANT CYMRAEG | DIBEN AC EFFAITH |
|------|--|---|---|
| 1 | <p>Page 1, line 9, leave out section 1 and insert—</p> <p>‘ [] Overview</p> <p>(1) This Part of the Act is an overview of the main provisions of the Act.</p> <p>(2) Part 2 provides for the continuation of the role of the Ombudsman.</p> <p>(3) Part 3 makes provision for—</p> <p>(a) the Ombudsman to investigate listed authorities;</p> <p>(b) who can make and refer complaints to the Ombudsman;</p> <p>(c) the matters that may be investigated by the Ombudsman;</p> <p>(d) the procedures that apply to the Ombudsman’s investigations;</p> <p>(e) the Ombudsman’s powers to deal with obstruction and contempt;</p> <p>(f) the Ombudsman to prepare reports of investigations;</p> <p>(g) the Ombudsman to issue guidance to listed authorities about good administrative practice;</p> <p>(h) listed authorities to compensate persons aggrieved.</p> <p>(4) Part 4 makes provision for—</p> | <p>Tudalen 1, llinell 10, hepgorer adran 1 a mewnosoder—</p> <p>‘ [] Trosolwg</p> <p>(1) Mae’r Rhan hon o’r Ddeddf yn drosolwg o brif ddarpariaethau’r Ddeddf.</p> <p>(2) Mae Rhan 2 yn darparu ar gyfer parhad rôl yr Ombwdsmon.</p> <p>(3) Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth—</p> <p>(a) i’r Ombwdsmon ymchwilio i awdurdodau rhestredig;</p> <p>(b) o ran pwy sy’n cael gwneud cwynion i’r Ombwdsmon ac atgyfeirio cwynion ato;</p> <p>(c) o ran y materion y caiff yr Ombwdsmon ymchwilio iddynt;</p> <p>(d) o ran y gweithdrefnau sy’n gymwys i ymchwiliadau’r Ombwdsmon;</p> <p>(e) o ran pwerau’r Ombwdsmon i ymdrin â rhwystr a dirmyg;</p> <p>(f) i’r Ombwdsmon baratoi adroddiadau ar ymchwiliadau;</p> <p>(g) i’r Ombwdsmon ddyroddi canllawiau i awdurdodau rhestredig ynghylch arferion gweinyddu da;</p> <p>(h) i awdurdodau rhestredig ddigolledu personau a dramgwyddwyd.</p> <p>(4) Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth—</p> | <p>Diben y gwelliant hwn yw diweddarau a gwella adran trosolwg y Bil.</p> <p>Effaith y gwelliant hwn yw y bydd yr adran drosolwg yn fwy eglur ac yn adlewyrchu'n well yr holl newidiadau a wnaed i'r Bil ers ei gyflwyno.</p> |

| | | | |
|--|--|---|--|
| | <p>(a) the Ombudsman to publish a statement of principles about the complaints-handling procedures of listed authorities, and the Assembly procedure that applies to the statement of principles;</p> <p>(b) the Ombudsman to publish model complaints-handling procedures for listed authorities;</p> <p>(c) requiring a listed authority to comply with a model complaints-handling procedure that applies to the listed authority;</p> <p>(d) the Ombudsman to declare that the complaints-handling procedure of a listed authority does not comply with the model complaints-handling procedure;</p> <p>(e) the Ombudsman to promote best practice in relation to complaints-handling.</p> <p>(5) Part 5 makes provision for—</p> <p>(a) the Ombudsman to investigate social care providers and palliative care providers;</p> <p>(b) who can make and refer complaints to the Ombudsman about social care and palliative care;</p> <p>(c) the social care and palliative care matters that may be investigated by the Ombudsman;</p> <p>(d) the procedures that apply to the Ombudsman’s investigations into social care and palliative care;</p> <p>(e) the Ombudsman to prepare reports of investigations into social care and palliative care.</p> | <p>(a) i’r Ombwdsmon gyhoeddi datganiad o egwyddorion ynghylch gweithdrefnau ymdrin â chwynion awdurdodau rhestredig, a’r weithdrefn Cynulliad sy’n gymwys i’r datganiad o egwyddorion;</p> <p>(b) i’r Ombwdsmon gyhoeddi gweithdrefn enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion ar gyfer awdurdodau rhestredig;</p> <p>(c) i’w gwneud yn ofynnol i awdurdod rhestredig gydymffurfio â gweithdrefn enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion sy’n gymwys i’r awdurdod rhestredig;</p> <p>(d) i’r Ombwdsmon ddatgan nad yw gweithdrefn ymdrin â chwynion awdurdod rhestredig yn cydymffurfio â’r weithdrefn enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion;</p> <p>(e) i’r Ombwdsmon hybu arferion gorau o ran y ffordd yr ymdrinnir â chwynion.</p> <p>(5) Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth—</p> <p>(a) i’r Ombwdsmon ymchwilio i ddarparwyr gofal cymdeithasol a darparwyr gofal lliniarol;</p> <p>(b) o ran pwy sy’n cael gwneud cwynion i’r Ombwdsmon a’u hatgyfeirio ato ynghylch gofal cymdeithasol a gofal lliniarol;</p> <p>(c) o ran y materion gofal cymdeithasol a gofal lliniarol y caiff yr Ombwdsmon ymchwilio iddynt;</p> <p>(d) o ran y gweithdrefnau sy’n gymwys i ymchwiliadau’r Ombwdsmon i ofal cymdeithasol a gofal lliniarol;</p> <p>(e) i’r Ombwdsmon baratoi adroddiadau ar ymchwiliadau i ofal cymdeithasol a gofal lliniarol.</p> | |
|--|--|---|--|

| | | | |
|---|---|--|--|
| | <p>(6) Part 6 makes supplementary provision for—</p> <p>(a) the Ombudsman to work with other ombudsmen and commissioners etc. in relation to investigations;</p> <p>(b) the disclosure and protection of information and publications in relation to investigations.</p> <p>(7) Part 7 makes miscellaneous provision, including a requirement for the Ombudsman to publish a Welsh language strategy and for the review of the operation of this Act by the Assembly.’.</p> | <p>(6) Mae Rhan 6 yn gwneud darpariaeth atodol—</p> <p>(a) i’r Ombwdsmon weithio gydag ombwdsmyr a chomisiynwyr eraill etc. mewn perthynas ag ymchwiliadau;</p> <p>(b) o ran datgelu a diogelu gwybodaeth a chyhoeddiadau mewn perthynas ag ymchwiliadau.</p> <p>(7) Mae Rhan 7 yn gwneud darpariaeth amrywiol, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i’r Ombwdsmon gyhoeddi strategaeth ar gyfer y Gymraeg ac i’r Cynulliad adolygu gweithrediad y Ddeddf hon.’.</p> | |
| 2 | <p>Section 3, page 2, line 15, leave out ‘or referred’.</p> | <p>Adran 3, tudalen 2, llinell 15, hepgorer ‘neu wedi’i hatgyfeirio’n briodol at yr’ a mewnosoder ‘i’r’.</p> | <p>Diben y gwelliant hwn yw dileu cyfeiriad at gwynion a gyfeirir at yr Ombwdsmon, fel bod adran 3(1)(a) ond yn cyfeirio at gwynion a wneir i’r Ombwdsmon. Mae angen i adran 3(1) yn ei chyfanrwydd wahaniaethu rhwng cyfeiriadau at: (a) cwynion a wneir i’r Ombwdsmon, a (b) cwynion a atgyfeirir at yr Ombwdsmon, oherwydd bod adrannau eraill o’r Bil (adrannau 3(5), 3(7) ac 8(5)) angen croesgyfeirio’n benodol at gwynion a wnaed i’r Ombwdsmon.</p> <p>Effaith y gwelliant hwn yw y bydd adrannau eraill o’r Bil yn gallu croesgyfeirio’n benodol at gwynion a wnaed i’r Ombwdsmon yn adran 3(1)(a).</p> <p>Er bod y cyfeiriad at y cwynion a gyfeirir at yr Ombwdsmon yn cael ei ddileu gan y gwelliant</p> |

| | | | |
|---|--|---|---|
| | | | hwn, mae'n cael ei gynnwys fel adran 3(1)(b) newydd (gweler gwelliant 3). |
| 3 | Section 3, page 2, line 15, after 'Ombudsman,', insert— 'or () duly referred to the Ombudsman, '. | Adran 3, tudalen 2, llinell 16, ar ôl 'Ombwdsmon,', mewnosoder— 'neu () wedi'i hatgyfeirio'n briodol at yr Ombwdsmon, '. | Gwelliant canlyniadol i welliant 2 yw hwn. Mae gwelliant 2 yn dileu cyfeiriad at gwynion a atgyfeirir at yr Ombwdsmon. Mae'r gwelliant hwn yn mewnosod cyfeiriad at gwynion a atgyfeirir at yr Ombwdsmon yn yr adran 3(1)(b) newydd. |
| 4 | Section 3, page 2, line 17, leave out '14' and insert '[section to be inserted by Amendment 24]'. | Adran 3, tudalen 2, llinell 18, hepgorer '14' a mewnosoder '[yr adran sy'n cael ei mewnosod gan Gwelliant 24]'. | Diben y gwelliant hwn yw adlewyrchu'r ffaith bod y materion y mae gan yr Ombwdsmon hawl i ymchwilio iddynt yn cynnwys gwasanaethau sy'n ymwneud ag iechyd a gaiff eu cynnwys o dan yr adran 16 newydd (pŵer i ymchwilio i wasanaethau eraill sy'n ymwneud ag iechyd, gweler gwelliant 24). Effaith y gwelliant hwn yw y bydd pobl yn gallu gwneud cwyn i'r Ombwdsmon am wasanaethau eraill sy'n ymwneud ag iechyd, ac y bydd gan yr Ombwdsmon yr hawl i ymchwilio i'r gwasanaethau eraill hynny sy'n gysylltiedig ag iechyd. |
| 5 | Section 3, page 2, line 29, leave out '14' and insert '[section to be inserted by Amendment 24]'. | Adran 3, tudalen 2, llinell 30, hepgorer '14' a mewnosoder '[yr adran sy'n cael ei mewnosod gan Gwelliant 24]'. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 4. |
| 6 | Section 3, page 2, line 32, after 'investigation', insert '(but see section 8([first paragraph to be inserted by Amendment 19]) for a restriction on the | Adran 3, tudalen 2, llinell 33, ar ôl 'ben', mewnosoder '(ond gweler adran 8([y paragraff cyntaf sy'n cael ei fewnosod gan Gwelliant 19]) | Diben y gwelliant hwn yw cyfeirio at adran 8(5)(a) o'r Bil, sy'n nodi rhai cyfyngiadau ar y pŵer i ddechrau ymchwiliad. |

| | | | |
|----|--|---|---|
| | power to begin an investigation under subsection 1(a))’. | am gyfyngiad ar y pŵer i gychwyn ymchwiliad o dan is-adran 1(a))’. | Effaith y gwelliant hwn yw cyfeirio at y cyswllt pwysig sy'n bodoli rhwng adran 3(5) ac adran 8(5)(a). Mae'r ddwy adran honno'n cyfeirio at arfer y pŵer i ddechrau ymchwiliad ac felly mae angen eu darllen gyda'i gilydd. |
| 7 | Section 3, page 3, line 2, after ‘withdrawn’, insert ‘(but see section 8(<i>first paragraph to be inserted by Amendment 19</i>)) for a restriction on the power to begin an investigation under subsection 1(a))’. | Adran 3, tudalen 3, llinell 3, ar ôl ‘ôl’, mewnosoder ‘(ond gweler adran 8(<i>ly paragraff cyntaf sy'n cael ei fewnosod gan Gwelliant 19</i>)) am gyfyngiad ar y pŵer i gychwyn ymchwiliad o dan is-adran 1(a))’. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 6. |
| 8 | Section 3, page 3, line 3, leave out subsection (8). | Adran 3, tudalen 3, llinell 4, hepgorer is-adran (8). | Gwelliant canlyniadol i welliannau 6 a 7 yw hwn. Drwy gynnwys cyfeiriadau penodol at adran 8(5)(a) mewn manau penodol, nid oes angen y cyfeiriad cyffredinol at adran 8(5). |
| 9 | Section 4, page 3, line 5, leave out ‘in respect of’. | Nid oes angen diwygio'r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version. | Diben y gwelliant hwn yw dileu geiriau dianghenraid. Effaith y gwelliant hwn yw gwella drafftio'r Bil. Nid oes unrhyw effaith arall. |
| 10 | Section 4, page 3, line 6, leave out ‘14’ and insert ‘ <i>section to be inserted by Amendment 24</i> ’. | Adran 4, tudalen 3, llinell 7, hepgorer ‘14’ a mewnosoder ‘ <i>yr adran sy'n cael ei mewnosod gan Gwelliant 24</i> ’. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 4. |
| 11 | Section 4, page 3, line 8, leave out subsections (2) to (4) and insert— ‘(2) Before the Ombudsman begins an investigation under this section, the Ombudsman must— | Adran 4, tudalen 3, llinell 9, hepgorer is-adrannau (2) hyd at (4) a mewnosoder— ‘(2) Cyn i'r Ombwdsmon gychwyn ymchwiliad o dan yr adran hon, rhaid i'r Ombwdsmon— | Diben y gwelliant hwn yw gosod rhai gofynion penodol ar wyneb y Bil y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gall yr Ombwdsmon ddefnyddio'r pŵer i ymchwilio i fater ar ei liwt ei hun. |

| | | | |
|----|---|--|---|
| | <p>(a) have regard to the public interest in beginning an investigation,</p> <p>(b) have a reasonable suspicion—</p> <p>(i) that there is systemic maladministration, or</p> <p>(ii) in a case where the matter is one which may be investigated by virtue of section 15(2), that systemic injustice has been sustained as a result of the exercise of professional judgement,</p> <p>(c) consult such persons as the Ombudsman considers appropriate (but see section 64 for further duties around consultation), and</p> <p>(d) have regard to the criteria for own initiative investigations published under section 5.</p> <p>(3) Subject to subsection (2)—</p> <p>(a) it is for the Ombudsman to decide whether to begin, continue or discontinue an investigation under this section;</p> <p>(b) the Ombudsman may take any action the Ombudsman thinks may assist in making a decision under subsection (3)(a).’.</p> | <p>(a) rhoi sylw i fudd y cyhoedd wrth gychwyn ymchwiliad,</p> <p>(b) amau’n rhesymol—</p> <p>(i) bod camweinyddu systematig, neu</p> <p>(ii) mewn achos pan fo’r mater yn un y caniateir ymchwilio iddo yn rhinwedd adran 15(2), fod anghyfiawnder systematig wedi ei ddioddef o ganlyniad i arfer barn broffesiynol,</p> <p>(c) ymgynghori â’r cyfryw bersonau y mae’r Ombwdsmon o’r farn ei bod yn briodol ymgynghori â hwy (ond gweler adran 64 am ddyletswyddau pellach o ran ymgynghori), a</p> <p>(d) rhoi sylw i’r meini prawf ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun a gyhoeddir o dan adran 5.</p> <p>(3) Yn ddarostyngedig i is-adran (2)—</p> <p>(a) mater i’r Ombwdsmon yw penderfynu pa un ai i gychwyn ymchwiliad, i barhau ag ymchwiliad neu i roi’r gorau i ymchwiliad o dan yr adran hon;</p> <p>(b) caiff yr Ombwdsmon gymryd unrhyw gamau gweithredu a all, ym marn yr Ombwdsmon, helpu i wneud penderfyniad o dan is-adran (3)(a).’.</p> | <p>Effaith y gwelliant yw, cyn i’r Ombwdsmon allu defnyddio’r pŵer i ymchwilio ar ei liwt ei hun, bod rhaid i’r Ombwdsmon—</p> <p>(a) ystyried budd y cyhoedd wrth ddechrau ymchwiliad,</p> <p>(b) bod ag amheuaeth resymol: (i) bod camweinyddu systematig, neu (ii) yn achos cwyn am rinweddau penderfyniad a gymerwyd o ganlyniad i farn broffesiynol yn ymwneud ag iechyd neu ofal cymdeithasol, bod anghyfiawnder systemig wedi ei ddioddef,</p> <p>(c) ymgynghori â phersonau y mae’r Ombwdsmon o’r farn eu bod yn briodol (gyda chyfeiriad at adran 65 sy’n nodi rhai dyletswyddau ymgynghori eraill), a</p> <p>(d) ystyried y meini prawf ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun a gyhoeddwyd o dan adran 5.</p> |
| 12 | <p>Section 5, page 3, line 15, leave out—</p> <p>‘(1) Before the Ombudsman begins an investigation under section 4, the Ombudsman must be satisfied that beginning an investigation is in the public interest and that one or more of the criteria in subsection (2) is met.</p> | <p>Adran 5, tudalen 3, llinell 18, hepgorer—</p> <p>‘(1) Cyn i’r Ombwdsmon gychwyn ymchwiliad o dan adran 4, rhaid i’r Ombwdsmon fod yn fodlon bod cychwyn ymchwiliad er budd y cyhoedd a bod un neu ragor o’r meini prawf yn is-adran (2) wedi’u bodloni.</p> <p>(2) Y meini prawf yw—</p> | <p>Diben y gwelliant hwn yw ei gwneud yn ofynnol i’r Ombwdsmon gyhoeddi meini prawf a fydd yn cael eu defnyddio pan fydd yr Ombwdsmon yn penderfynu a ddylid dechrau ymchwiliad ar ei liwt ei hun, ac i’r Cynulliad a Gweinidogion Cymru gael rolau penodol yn y broses.</p> |

| | | | |
|--|--|---|---|
| | <p>(2) The criteria are—</p> <p>(a) any vulnerable or disadvantaged person (for example, a person who would have particular difficulty in making a complaint to the Ombudsman or a listed authority) is likely to sustain injustice or hardship in consequence of the matter that is being considered for investigation;</p> <p>(b) having regard to complaints received by the Ombudsman, the matter being considered for investigation is likely to amount to a systemic failure that may cause any person to sustain injustice or hardship.</p> <p>(3) The Welsh Ministers may by regulations amend the criteria in subsection (2) by adding criteria, removing criteria or changing the criteria.</p> <p>(4) Before making regulations under subsection (3), the Welsh Ministers must consult the Ombudsman and any other persons they think appropriate.</p> <p>(5) No regulations are to be made under subsection (3)'</p> <p>and insert—</p> <p>'() The Ombudsman must publish criteria to be used in determining whether to begin an investigation under section 4.</p> <p>() The Ombudsman must lay a draft of the first criteria before the Assembly.</p> <p>() If, before the end of the 40 day period, the Assembly resolves not to approve the</p> | <p>(a) bod unrhyw berson hygllwyf neu dan anfantais (er enghraifft, person a fyddai'n cael anhawster penodol i wneud cwyn i'r Ombwdsmon neu awdurdod rhestredig) yn debygol o ddioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r mater yr ystyrir ymchwilio iddo;</p> <p>(b) gan roi sylw i gwynion a gafodd yr Ombwdsmon, fod y mater yr ystyrir ymchwilio iddo yn debygol o fod yn fethiant systemig a all achosi i unrhyw berson ddioddef anghyfiawnder neu galedi.</p> <p>(3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio'r meini prawf yn is-adran (2) drwy ychwanegu meini prawf, dileu meini prawf neu newid y meini prawf.</p> <p>(4) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (3), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ombwdsmon ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol, yn eu barn hwy.</p> <p>(5) Ni chaniateir gwneud rheoliadau o dan is-adran (3)'</p> <p>a mewnosoder—</p> <p>() Rhaid i'r Ombwdsmon gyhoeddi meini prawf i'w defnyddio i benderfynu pa un ai i gychwyn ymchwiliad o dan adran 4.</p> <p>() Rhaid i'r Ombwdsmon osod drafft o'r meini prawf cyntaf gerbron y Cynulliad.</p> <p>() Os yw'r Cynulliad yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r meini prawf drafft cyn diwedd y cyfnod o 40 diwrnod, ni chaiff yr</p> | <p>Effaith y gwelliant hwn yw y bydd y meini prawf cyntaf (ac unrhyw welliannau perthnasol dilynol i'r meini prawf) yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol yn y Cynulliad. Bydd gan y Cynulliad gyfle i benderfynu i beidio â chymeradwyo'r meini prawf.</p> <p>Mae gan Weinidogion Cymru bŵer i newid y meini prawf, drwy reoliadau y mae'n rhaid eu chymeradwyo gan y Cynulliad.</p> <p>Mae'r gwelliant hefyd yn cynnwys dyletswyddau i ymgynghori cyn gosod meini prawf gerbron y Cynulliad neu cyn i Weinidogion Cymru eu newid.</p> |
|--|--|---|---|

| | | | |
|--|--|--|--|
| | <p>draft criteria, the Ombudsman must not publish the criteria in the form of the draft.</p> <p>() If no such resolution is made before the end of that period, the Ombudsman must publish the criteria in the form of the draft.</p> <p>() The 40 day period—</p> <p>(a) begins on the day on which the draft is laid before the Assembly, and</p> <p>(b) does not include any time during which the Assembly is dissolved or is in recess for more than four days.</p> <p>() Subsection (3) does not prevent new draft criteria from being laid before the Assembly.</p> <p>() Before laying the draft criteria before the Assembly, the Ombudsman must consult—</p> <p>(a) the Welsh Ministers,</p> <p>(b) the listed authorities in Schedule 3, and</p> <p>(c) such other persons as the Ombudsman thinks appropriate.</p> <p>() The Ombudsman must, in preparing the draft criteria to be laid before the Assembly, have regard to any representations made during the consultation mentioned in subsection (7).</p> <p>() The criteria come into force when they are published by the Ombudsman.</p> <p>() The Ombudsman may from time to time revise and re-publish the criteria.</p> <p>() Where the Ombudsman considers that any revision of the criteria under subsection (10) is material, subsections (2) to (8) apply to the criteria as they do to the first criteria.</p> | <p>Ombwdsmon gyhoeddi'r meini prawf ar eu ffurf drafft.</p> <p>() Os na wneir y cyfryw benderfyniad cyn diwedd y cyfnod hwnnw, rhaid i'r Ombwdsmon gyhoeddi'r meini prawf ar eu ffurf drafft.</p> <p>() O ran y cyfnod o 40 diwrnod—</p> <p>(a) mae'n dechrau ar y diwrnod pryd y gosodir y drafft gerbron y Cynulliad, a</p> <p>(b) nid yw'n cynnwys unrhyw amser pryd y bydd y Cynulliad wedi ei ddiddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod.</p> <p>() Nid yw is-adran (3) yn atal meini prawf drafft newydd rhag cael eu gosod gerbron y Cynulliad.</p> <p>() Cyn gosod y meini prawf drafft gerbron y Cynulliad, rhaid i'r Ombwdsmon ymgynghori â'r canlynol—</p> <p>(a) Gweinidogion Cymru,</p> <p>(b) yr awdurdodau rhestredig yn Atodlen 3, ac</p> <p>(c) y cyfryw bersonau eraill sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon.</p> <p>() Rhaid i'r Ombwdsmon, wrth baratoi'r meini prawf drafft i'w gosod gerbron y Cynulliad, roi sylw i unrhyw sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad a grybwyllir yn is-adran (7).</p> <p>() Daw'r meini prawf i rym pan gânt eu cyhoeddi gan yr Ombwdsmon.</p> <p>() O dro i dro, caiff yr Ombwdsmon adolygu ac ailgyhoeddi'r meini prawf.</p> <p>() Pan fo'r Ombwdsmon o'r farn bod unrhyw adolygiad o'r meini prawf o dan is-adran (10) yn berthnasol, mae is-adrannau (2) i (8) yn</p> | |
|--|--|--|--|

| | | | |
|----|---|--|--|
| | <p>() The Welsh Ministers may by regulations amend the criteria published by the Ombudsman under this section by adding criteria, removing criteria or changing the criteria.</p> <p>() Where the Welsh Ministers make regulations under subsection (12), the Ombudsman must publish the criteria, as amended by the regulations, on the day the regulations come into force.</p> <p>() Before making regulations under subsection (12), the Welsh Ministers must consult—</p> <p>(a) the Ombudsman,</p> <p>(b) the listed authorities in Schedule 3, and</p> <p>(c) such other persons as the Welsh Ministers think appropriate.</p> <p>() No regulations are to be made under subsection (12)ʹ.</p> | <p>gymwys iʹr meini prawf hynny fel y maent yn gymwys iʹr meini prawf cyntaf.</p> <p>() Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygioʹr meini prawf a gyhoeddir gan yr Ombwdsmon o dan yr adran hon drwy ychwanegu meini prawf, dileu meini prawf neu newid y meini prawf.</p> <p>() Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau o dan is-adran (12), rhaid iʹr Ombwdsmon gyhoeddiʹr meini prawf, fel yʹu diwygiwyd gan y rheoliadau, ar y diwrnod y dawʹr rheoliadau i rym.</p> <p>() Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (12), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori âʹr canlynol—</p> <p>(a) yr Ombwdsmon,</p> <p>(b) yr awdurdodau rhestredig yn Atodlen 3 , ac</p> <p>(c) y cyfryw bersonau eraill syʹn briodol ym marn Gweinidogion Cymru.</p> <p>() Ni chaniateir gwneud rheoliadau o dan is-adran (12)ʹ.</p> | |
| 13 | Section 7, page 4, line 9, leave out ‘14’ and insert ‘[<i>section to be inserted by Amendment 24</i>]ʹ. | Adran 7, tudalen 4, llinell 10, hepgorer ‘14’ a mewnosoder ‘[<i>yr adran syʹn cael ei mewnosod gan Gwelliant 24</i>]ʹ. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 4. |
| 14 | Section 7, page 4, line 10, leave out ‘by the person aggrieved to act on his or her behalf;’ and insert ‘in writing by the person aggrieved to act on that person’s behalf, or’. | Adran 7, tudalen 4, llinell 11, hepgorer ‘gan y person a dramgwyddwyd i weithredu ar ei ran’ a mewnosoder ‘yn ysgrifenedig gan y person a dramgwyddwyd i weithredu ar ran y person hwnnw’. | Diben y gwelliant hwn yw egluro bod y personau sydd â hawl i wneud cwyn iʹr Ombwdsmon yn cynnwys person a awdurdodwyd yn ysgrifenedig i wneud hynny gan y sawl a dramgwyddwyd. |

| | | | |
|----|--|---|--|
| | | | <p>Effaith y gwelliant hwn yw, os yw'r person a dramgwyddwyd yn awdurdodi, yn ysgrifenedig, berson arall i weithredu ar ei ran, yna gall y person arall gwyno wrth yr Ombwdsmon ar ran y person a dramgwyddwyd.</p> <p>Mae'r gwelliant hefyd yn dileu cyfeiriad at "his or her" yn y fersiwn Saesneg i adlewyrchu'r arddull drafftio gyfredol, ac fydd yn gwella'r arddull drafftio.</p> |
| 15 | Section 7, page 4, line 11, leave out 'a person to act on his or her behalf' and insert 'such a person'. | Adran 7, tudalen 4, llinell 12, hepgorer 'awdurdodi person i weithredu ar ei ran' a mewnosoder 'awdurdodi'r cyfryw berson'. | <p>Diben y gwelliant hwn yw dileu'r cyfeiriad at "his or her" yn y fersiwn Saesneg i adlewyrchu'r arddull drafftio gyfredol. Diben y gwelliant yn y fersiwn Gymraeg yw adlewyrchu'r geiriad Saesneg newydd.</p> <p>Effaith y gwelliant hwn fydd gwella'r arddull drafftio. Nid oes unrhyw effaith arall.</p> |
| 16 | Section 8, page 4, line 23, after 'matter', insert 'alleged in the complaint'. | Adran 8, tudalen 4, llinell 25, ar ôl 'mater', mewnosoder 'a honnir yn y gŵyn'. | <p>Diben y gwelliant hwn yw egluro bod y cyfeiriad at "mater" yn adran 8(1)(c) yn gyfeiriad at y mater a honnir yn y gŵyn dan sylw.</p> <p>Effaith y gwelliant hwn fydd egluro pa fater y cyfeirir ato yn adran 8(1)(c).</p> |
| 17 | Section 8, page 4, line 29, leave out 'aggrieved' and insert 'who made the complaint'. | Adran 8, tudalen 4, llinell 31, hepgorer 'dramgwyddwyd' a mewnosoder 'wnaeth y gŵyn'. | Diben y gwelliant hwn yw ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon esbonio i'r person a wnaeth y gŵyn (a allai fod y person a |

| | | | |
|----|--|--|---|
| | | | <p>dramgwyddwyd neu beidio) ynghylch y goblygiadau o wneud cwyn lafar.</p> <p>Effaith y gwelliant hwn yw sicrhau, er enghraifft, os yw person wedi gwneud cwyn ar ran y person a dramgwyddwyd, yna rhoddir esboniad i'r person a wnaeth y gŵyn am yr hyn y mae'n ei olygu i wneud cwyn lafar.</p> |
| 18 | Section 8, page 4, line 31, leave out 'aggrieved whether he or she' and insert 'whether the person'. | Adran 8, tudalen 4, llinell 33, hepgorer 'a dramgwyddwyd'. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 17, ond mae'r gwelliant hwn hefyd yn dileu cyfeiriad at "his or her" yn y fersiwn Saesneg i adlewyrchu'r arddull drafftio gyfredol. |
| 19 | Section 8, page 4, line 34, leave out '3 to investigate the matter' and insert— '3(1)(a) to begin an investigation into the matter alleged in the complaint; (b) may use the power in section 4 to investigate the matter alleged in the complaint'. | Adran 8, tudalen 4, llinell 36, hepgorer '3 i ymchwilio i'r mater' a mewnosoder— '3(1)(a) i ddechrau ymchwiliad i'r mater a honnir yn y gŵyn; (b) caiff yr Ombwdsmon ddefnyddio'r pŵer yn adran 4 i ymchwilio i'r mater a honnir yn y gŵyn'. | <p>Diben y gwelliant hwn yw egluro pa bwerau ymchwilio sydd ar gael i'r Ombwdsmon os bydd rhywun sy'n gwneud cwyn lafar yn dweud nad yw am i'r gŵyn gael ei thrin fel cwyn ffurfiol o dan y Bil.</p> <p>Effaith y gwelliant hwn fydd, pan fydd person sy'n gwneud cwyn lafar yn dweud nad yw am i'r gŵyn gael ei thrin fel cwyn ffurfiol, yna ni all yr Ombwdsmon ddefnyddio'r pŵer o dan adran 3 i ddechrau ymchwiliad i'r gŵyn lafar. Fodd bynnag, os yw'r Ombwdsmon eisoes wedi dechrau ymchwiliad i'r gŵyn lafar, yna bydd yr Ombwdsmon yn gallu parhau â'r ymchwiliad.</p> |

| | | | |
|----|--|--|---|
| | | | Bydd yr Ombwdsmon hefyd yn gallu ymchwilio i'r mater gan ddefnyddio'r pŵer o dan adran 4 i ymchwilio ar ei liwt ei hun. |
| 20 | Section 8, page 4, line 36, leave out 'he or she' and insert 'the person'. | Nid oes angen diwygio'r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version. | Diben y gwelliant hwn yw dileu cyfeiriad at "he or she" yn y fersiwn Saesneg i adlewyrchu'r arddull drafftio gyfredol. Effaith y gwelliant hwn fydd gwella'r arddull drafftio. Nid oes unrhyw effaith arall. |
| 21 | Section 8, page 5, line 3, leave out subsections (8) to (10). | Adran 8, tudalen 5, llinell 3, hepgorer is-adrannau (8) hyd at (10). | Diben y gwelliant hwn yw dileu cyfeiriadau at gofnodi cwynion. Bydd cofnodi cwynion yn cael ei gynnwys fel adran newydd ar wahân (gweler gwelliant 22). Effaith y gwelliant hwn fydd na fydd adran 8 bellach yn nodi'r gofynion ar gyfer cofnodi cwynion. |
| 22 | Page 5, after line 20, insert a new section— [] Records of complaints The Ombudsman must maintain a register of every complaint made or referred to the Ombudsman in respect of a matter which the Ombudsman is entitled to investigate under this Part.'. | Tudalen 5, ar ôl llinell 21, mewnosoder adran newydd— [] Cofnodion o gwynion Rhaid i'r Ombwdsmon gadw cofrestr o bob cwyn a wnaed i'r Ombwdsmon neu a atgyfeiriwyd at yr Ombwdsmon mewn perthynas â mater y mae gan yr Ombwdsmon hawl i ymchwilio iddo o dan y Rhan hon.'. | Diben y gwelliant hwn yw nodi'r cofnodion o gwynion y mae'n rhaid i'r Ombwdsmon eu cadw. Effaith y gwelliant hwn yw y bydd yn rhaid i'r Ombwdsmon gadw cofnodion o'r holl gwynion a dderbynnir gan yr Ombwdsmon, ar yr amod bod y cwynion yn ymwneud â materion y mae gan yr Ombwdsmon yr hawl i ymchwilio iddynt. |
| 23 | Section 10, page 5, line 24, leave out— | Adran 10, tudalen 5, llinell 25, hepgorer— | Diben y gwelliant hwn yw dileu'r pŵer yn adran 10 i ymchwilio i agweddau penodol ar |

| | | | |
|--|---|---|---|
| | <p>'other than a private health services provider in connection with relevant action; (b) an alleged failure in a relevant service provided by a listed authority other than a private health services provider; (c) an alleged failure by a listed authority other than a private health services provider to provide a relevant service; (d) where subsection (2) applies, matters relating to private health services. (2) This subsection applies where in the Ombudsman's opinion— (a) a person has received medical treatment by way of relevant action taken by a listed authority other than a private health services provider, (b) the person has also received private health services from a private health services provider, and (c) matters relating to the relevant action cannot be investigated effectively or completely without also investigating matters relating to the private health services. (3) Subsection (1) is subject to sections 11 to 14.'</p> <p>and insert—</p> <p>'in connection with relevant action; (b) an alleged failure in a relevant service provided by a listed authority;</p> | <p>'heblaw darparwr gwasanaethau iechyd preifat mewn cysylltiad â chymau gweithredu perthnasol; (b) methiant honedig mewn gwasanaeth perthnasol a ddarperir gan awdurdod rhestredig heblaw darparwr gwasanaethau iechyd preifat; (c) methiant honedig gan awdurdod rhestredig heblaw darparwr gwasanaethau iechyd preifat i ddarparu gwasanaeth perthnasol; (d) pan fo is-adran (2) yn gymwys, materion sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd preifat. (2) Mae'r is-adran hon yn gymwys pan fo'r Ombwdsmon o'r farn— (a) bod person wedi cael triniaeth feddygol yn sgil camau gweithredu perthnasol a gymerwyd gan awdurdod rhestredig heblaw darparwr gwasanaethau iechyd preifat, (b) bod y person hefyd wedi cael gwasanaethau iechyd preifat gan ddarparwr gwasanaethau iechyd preifat, ac (c) na ellir ymchwilio'n effeithiol nac yn gyflawn i faterion sy'n ymwneud â'r camau gweithredu perthnasol heb hefyd ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â'r gwasanaethau iechyd preifat. (3) Mae is-adran (1) yn ddarostyngedig i adrannau 11 i 14.'</p> <p>a mewnosoder—</p> <p>'mewn cysylltiad â chymau gweithredu perthnasol;</p> | <p>ofal iechyd preifat. Caiff y darpariaethau sy'n cael eu dileu eu disodli gan ddarpariaethau newydd yn yr adran 16 newydd (gweler gwelliant 24).</p> <p>Effaith y gwelliant hwn fydd na fydd adran 10 yn rhoi unrhyw bwerau ymchwilio newydd i'r Ombwdsmon.</p> |
|--|---|---|---|

| | | | |
|----|--|---|---|
| | <p>(c) an alleged failure by a listed authority to provide a relevant service.</p> <p>() The matters may relate to action taken before or after this Act receives Royal Assent.</p> <p>() Subsection (1) is subject to sections 12 to 15.’.</p> | <p>(b) methiant honedig mewn gwasanaeth perthnasol a ddarperir gan awdurdod rhestredig;</p> <p>(c) methiant honedig gan awdurdod rhestredig i ddarparu gwasanaeth perthnasol.</p> <p>() Caiff y materion ymwneud â chamau gweithredu a gymerwyd cyn i’r Ddeddf hon gael y Cydsyniad Brenhinol neu wedi hynny.</p> <p>() Mae is-adran (1) yn ddarostyngedig i adrannau 12 i 15.’.</p> | |
| 24 | <p>Page 8, after line 17, insert a new section—</p> <p><i>‘Ancillary investigations</i></p> <p>[] Power to investigate other health-related services</p> <p>(1) This section applies where—</p> <p>(a) the Ombudsman has power under this Part to investigate—</p> <p>(i) alleged maladministration by a relevant listed authority in connection with relevant action taken by the authority in relation to a person,</p> <p>(ii) an alleged failure in a relevant service provided to a person by a relevant listed authority, or</p> <p>(iii) an alleged failure by a relevant listed authority to provide a relevant service to a person, and</p> | <p>Tudalen 8, ar ôl llinell 17, mewnosoder adran newydd—</p> <p><i>‘Ymchwiliadau ategol</i></p> <p>[] Pŵer i ymchwilio i wasanaethau eraill sy’n gysylltiedig ag iechyd</p> <p>(1) Mae’r adran hon yn gymwys fel a ganlyn—</p> <p>(a) pan fo gan yr Ombwdsmon bŵer o dan y Rhan hon i ymchwilio—</p> <p>(i) i gamweinyddu honedig gan awdurdod rhestredig perthnasol mewn cysylltiad â chamau gweithredu perthnasol a gymerwyd gan yr awdurdod mewn perthynas â pherson,</p> <p>(ii) i fethiant honedig mewn gwasanaeth perthnasol a ddarperir i berson gan awdurdod rhestredig perthnasol, neu</p> <p>(iii) i fethiant honedig gan awdurdod rhestredig perthnasol i ddarparu gwasanaeth perthnasol i berson, a</p> | <p>Diben y gwelliant hwn yw rhoi pwerau newydd i’r Ombwdsmon ymchwilio i rai gwasanaethau sy’n gysylltiedig ag iechyd (a thrwy hynny ddisodli’r darpariaethau a ddileir gan welliant 23).</p> <p>Effaith y gwelliant hwn fydd rhoi pŵer i’r Ombwdsmon ymchwilio i “gwasanaeth sy’n gysylltiedig ag iechyd” mewn rhai amgylchiadau. Diffinnir “gwasanaethau sy’n gysylltiedig ag iechyd” yn is-adran (4) ac maent yn cynnwys: (a) gwasanaethau meddygol, deintyddol, offthalmig, nyrsio, bydwreigiaeth a fferyllol, a (b) unrhyw wasanaeth arall a ddarperir mewn cysylltiad ag iechyd corfforol neu feddyliol person, ond nid ydynt yn chynnwys gweithdrefnau arbennig sydd wedi’u trwyddedu o dan Ran 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, hynny yw, aciwbigo, tyllu’r corff, electrolysis a thatwïo.</p> |

| | | | |
|--|--|--|---|
| | <p>(b) a health-related service which is not a relevant service has also been provided to the person.</p> <p>(2) If the Ombudsman considers that the alleged maladministration or failure cannot be investigated effectively or completely without also investigating the health-related service mentioned in subsection (1)(b), the Ombudsman may investigate that service as part of the investigation in respect of the relevant listed authority.</p> <p>(3) If the Ombudsman does so, any reference to a listed authority in section 15, 16, 20(2)(b) or (7)(a), 27(9)(b)(ii) or 28(4)(a) includes, in addition, a reference to the person who provided the health-related service mentioned in subsection (1)(b).</p> <p>(4) In this section— “health-related service” (<i>“gwasanaeth sy’n gysylltiedig ag iechyd”</i>) includes— (a) any medical, dental, ophthalmic, nursing, midwifery or pharmaceutical service, and (b) any other service which is provided in connection with a person’s physical or mental health, other than a special procedure performed under the authority of a special procedure licence (within the meaning of Part 4 of the Public Health (Wales) Act 2017 (anaw 2); “relevant action” (<i>“camau gweithredu perthnasol”</i>) has the meaning given in section 11(4);</p> | <p>(b) pan fo gwasanaeth sy’n gysylltiedig ag iechyd nad yw’n wasanaeth perthnasol hefyd wedi’i ddarparu i’r person.</p> <p>(2) Os yw’r Ombwdsmon o’r farn na ellir ymchwilio’n effeithiol nac yn gyflawn i’r camweinyddu honedig neu’r methiant honedig heb hefyd ymchwilio i’r gwasanaeth sy’n gysylltiedig ag iechyd a grybwyllir yn is-adran (1)(b), caiff yr Ombwdsmon ymchwilio i’r gwasanaeth hwnnw fel rhan o’r ymchwiliad mewn perthynas â’r awdurdod rhestredig perthnasol.</p> <p>(3) Os gwnaiff yr Ombwdsmon hynny, mae unrhyw gyfeiriad at awdurdod rhestredig yn adran 15, 186, 20(2)(b) neu (7)(a), 27(5)(b)(ii) neu (9)(a), 28(9)(b)(ii) neu 28(4)(a) yn cynnwys hefyd gyfeiriad at y person a ddarparodd y gwasanaeth sy’n gysylltiedig ag iechyd a grybwyllir yn is-adran (1)(b).</p> <p>(4) Yn yr adran hon— ystyr “awdurdod rhestredig perthnasol” (<i>“relevant listed authority”</i>) yw— (a) Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru; (b) Bwrdd Iechyd Lleol; (c) Ymddiriedolaeth GIG sy’n rheoli ysbyty neu sefydliad neu gyfleuster arall yng Nghymru; (d) Awdurdod Iechyd Arbennig nad yw’n cyflawni swyddogaethau yn Lloegr yn unig neu’n bennaf; (e) Cyngor Iechyd Cymuned; (f) darparwr annibynnol yng Nghymru;</p> | <p>Er enghraifft, os yw Bwrdd Iechyd Lleol wedi methu â darparu gwasanaeth GIG i berson, a bod y person hefyd wedi cael triniaeth feddygol breifat (ac eithrio triniaeth feddygol a ddarperir gan “darparwr annibynnol” fel y’i diffinnir yn adran 76(1)), yna, os na ellir ymchwilio i fethiant y Bwrdd Iechyd Lleol yn effeithiol neu’n gyfan gwbl heb ymchwilio i’r gwasanaeth sy’n gysylltiedig ag iechyd, gall yr Ombwdsmon ymchwilio’r gwasanaeth sy’n gysylltiedig ag iechyd fel rhan o’r ymchwiliad i’r Bwrdd Iechyd Lleol.</p> |
|--|--|--|---|

| | | | |
|----|---|--|---|
| | <p>“relevant listed authority” (“<i>awdurdod rhestredig perthnasol</i>”) means—</p> <p>(a) the Board of Community Health Councils in Wales;</p> <p>(b) a Local Health Board;</p> <p>(c) an NHS Trust managing a hospital or other establishment or facility in Wales;</p> <p>(d) a Special Health Authority not discharging functions only or mainly in England;</p> <p>(e) a Community Health Council;</p> <p>(f) an independent provider in Wales;</p> <p>(g) a family health service provider in Wales;</p> <p>(h) a person with functions conferred by regulations made under section 113(2) of the Health and Social Care (Community Health Standards) Act 2003 (c.43);</p> <p>(i) the Welsh Health Specialised Services Committee;</p> <p>“relevant service” (“<i>gwasanaeth perthnasol</i>”) has the meaning in section 11(5).</p> <p>(5) This section does not affect the Ombudsman’s power under section 19.’.</p> | <p>(g) darparwr gwasanaeth iechyd teulu yng Nghymru;</p> <p>(h) person â swyddogaethau a roddir gan reoliadau a wneir o dan adran 113(2) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p.43);</p> <p>(i) Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru;</p> <p>mae i “<i>camau gweithredu perthnasol</i>” (“<i>relevant action</i>”) yr ystyr a roddir yn adran 11(4);</p> <p>mae i “<i>gwasanaeth perthnasol</i>” (“<i>relevant service</i>”) yr ystyr a roddir yn adran 11(5);</p> <p>mae “<i>gwasanaeth sy’n gysylltiedig ag iechyd</i>” (“<i>health-related service</i>”) yn cynnwys—</p> <p>(a) unrhyw wasanaeth meddygol, deintyddol, offthalmig, nyrsio, bydwreigiaeth neu fferyllol, a</p> <p>(b) unrhyw wasanaeth arall a ddarperir mewn cysylltiad ag iechyd corfforol neu feddyliol person,</p> <p>heblaw triniaeth arbennig a gyflawnir o dan awdurdod trwydded triniaeth arbennig (o fewn ystyr Rhan 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (dccc2);</p> <p>(5) Nid yw’r adran hon yn effeithio ar bŵer yr Ombwdsmon o dan adran 19.’.</p> | |
| 25 | Section 15, page 8, line 20, leave out ‘decides under section 3(5) or section 4(3)’. | Adran 15, tudalen 8, llinell 20, hepgorer ‘yn penderfynu o dan adran 3(5) neu adran 4(3)’. | Diben y gwelliant hwn (i’w ddarllen gyda gwelliant 26) yw gwella eglurder a’r drafftio yn yr adran hon o’r Bil. |

| | | | |
|----|---|---|--|
| | | | <p>Effaith y gwelliant hwn (i'w ddarllen gyda gwelliant 26) fydd gwella eglurder a strwythur yr adran hon o'r Bil.</p> <p>Nid yw'r gwelliant yn newid y polisi a nodir yn y Bil fel y'i cyflwynwyd.</p> |
| 26 | <p>Section 15, page 8, line 21, leave out 'not to begin an investigation' and insert 'decides not to begin an investigation, or to discontinue an investigation, into a matter under section 3(5)'.</p> | <p>Adran 15, tudalen 8, llinell 21, hepgorer 'i beidio â chychwyn ymchwiliad' a mewnosoder 'yn penderfynu peidio â chychwyn ymchwiliad neu roi'r gorau i ymchwiliad, i fater o dan adran 3(5)'.</p> | <p>Diben y gwelliant hwn (i'w ddarllen gyda gwelliant 25) yw gwella eglurder a drafftio'r Bil.</p> <p>Effaith y gwelliant hwn (i'w ddarllen gyda gwelliant 25) fydd gwella eglurder a strwythur yr adran hon o'r Bil.</p> <p>Nid yw'r gwelliant yn newid y polisi a nodir yn y Bil fel y'i cyflwynwyd.</p> |
| 27 | <p>Section 15, page 8, line 22, leave out 'to discontinue an investigation' and insert 'where the Ombudsman has consulted a person under section [<i>third paragraph of first subsection to be inserted by Amendment 11</i>], decides not to begin an investigation, or to discontinue an investigation, into a matter under section [<i>first paragraph of second subsection to be inserted by Amendment 11</i>]'.</p> | <p>Adran 15, tudalen 8, llinell 22, hepgorer 'i ddod ag ymchwiliad i ben' a mewnosoder 'pan fo'r Omdwdsmon wedi ymgynghori â pherson o dan adran [<i>trydydd paragraff yr is-adran gyntaf sy'n cael ei mewnosod gan Gwelliant 11</i>], yn penderfynu peidio â chychwyn ymchwiliad, neu roi'r gorau i ymchwiliad, i fater o dan adran [<i>paragraff cyntaf yr ail is-adran sy'n cael ei mewnosod gan Gwelliant 11</i>]'.</p> | <p>Diben y gwelliant hwn yw ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon roi rhesymau dros beidio â dechrau ymchwiliad ar ei liwt ei hun, neu dros roi'r gorau i ymchwiliad ar ei liwt ei hun, os yw'r Ombwdsmon eisoes wedi ymgynghori â pherson o dan adran 4 (mae adran 4 yn gosod dyletswydd ar yr Ombwdsmon i ymgynghori cyn cynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun).</p> <p>Effaith y gwelliant hwn fydd pan fydd yr Ombwdsmon wedi ymgynghori â pherson o dan adran 4, yna bydd unrhyw benderfyniad i beidio â dechrau ymchwiliad ar ei liwt ei hun, neu i roi'r gorau i ymchwiliad ar ei liwt ei hun, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon</p> |

| | | | |
|----|--|--|---|
| | | | <p>baratoi datganiad o resymau dros y penderfyniad hwnnw.</p> <p>Fodd bynnag, os nad yw'r Ombwdsmon wedi ymgynghori eto â pherson o dan adran 4 ac yn penderfynu peidio â dechrau ymchwiliad ar ei liwt ei hun, yna ni fydd y ddyletswydd i baratoi datganiad o resymau yn berthnasol.</p> |
| 28 | Section 15, page 8, line 25, leave out 'the person aggrieved (if any)' and insert 'any person who made a complaint to the Ombudsman in respect of the matter'. | Adran 15, tudalen 8, llinell 25, hepgorer 'y person a dramgwyddwyd (os oes un)' a mewnosoder 'unrhyw berson a wnaeth gŵyn i'r Ombwdsmon mewn perthynas â'r mater'. | <p>Diben y gwelliant hwn yw ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon anfon copi o'r datganiad (hynny yw, y datganiad o'r rhesymau dros y penderfyniad i beidio ag ymchwilio neu i roi'r gorau i ymchwiliad) at unrhyw un a wnaeth gŵyn i'r Ombwdsmon, pa un ai'r person a dramgwyddwyd yw'r person hwnnw neu unrhyw berson arall sydd â hawl i wneud cwyn o dan adran 7.</p> <p>Effaith y gwelliant hwn yw y bydd y person priodol (hynny yw, y sawl a wnaeth y gŵyn) yn cael copi o'r datganiad.</p> |
| 29 | Section 16, page 9, line 15, after 'authority', insert 'to which the investigation relates'. | Adran 16, tudalen 9, llinell 16, ar ôl 'rhestredig', mewnosoder 'y mae'r ymchwiliad yn ymwneud ag ef'. | <p>Diben y gwelliant hwn yw egluro ystyr y cyfeiriad at awdurdod rhestredig yn is-adran (1)(a).</p> <p>Effaith y gwelliant hwn fydd egluro bod y cyfeiriad at awdurdod rhestredig yn is-adran (1)(a) yn gyfeiriad at yr awdurdod rhestredig sy'n cael ei ymchwilio.</p> |
| 30 | Section 16, page 9, line 22, after 'investigated', insert— | Adran 16, tudalen 9, llinell 24, ar ôl 'iddo', mewnosoder— | Diben y gwelliant hwn yw ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon roi copi o gynnig |

| | | | |
|----|---|---|---|
| | <p>‘, and (ii) any person, other than the listed authority, who is identified in the investigation proposal in a negative way’.</p> | <p>‘, a (ii) i unrhyw berson, heblaw’r awdurdod rhestredig, y’i hadwaenir mewn modd negyddol yn y cynnig ymchwilio’.</p> | <p>ymchwilio i unrhyw berson (ac eithrio'r awdurdod rhestredig sy'n cael ei ymchwilio) sydd wedi'i wneud yn hysbys yn y cynnig ymchwilio mewn modd negyddol.</p> <p>Effaith y gwelliant hwn yw y bydd gan berson y'i gwneir yn hysbys mewn cynnig ymchwilio mewn modd negyddol gopi o'r cynnig ymchwilio (fel y gall wneud sylwadau ar y cynnig ymchwilio).</p> |
| 31 | <p>Section 16, page 9, line 24, leave out ‘has prepared an investigation proposal in respect of an investigation under section’.</p> | <p>Adran 16, tudalen 9, llinell 26, hepgorer ‘wedi paratoi cynnig ymchwiliad sy’n ymwneud ag ymchwiliad o dan adran’.</p> | <p>Diben y gwelliant hwn (i'w ddarllen gyda gwelliant 32) yw egluro'r amgylchiadau pan na fydd yn rhaid i'r Ombwdsmon baratoi cynnig ymchwilio.</p> <p>Effaith y gwelliant hwn (i'w ddarllen gyda gwelliant 32) yw, os yw'r Ombwdsmon wedi dechrau ymchwiliad o dan adran 3 neu adran 4 (“yr ymchwiliad gwreiddiol”) a'i fod wedi dechrau ymchwiliad arall o dan adran 4 (“yr ymchwiliad cysylltiedig”), yna nid oes rhaid i'r Ombwdsmon baratoi cynnig ymchwilio mewn perthynas â'r ymchwiliad cysylltiedig.</p> |
| 32 | <p>Section 16, page 9, line 27, leave out ‘is conducting another investigation’ and insert ‘has begun another investigation into a matter’.</p> | <p>Adran 16, tudalen 9, llinell 29, hepgorer ‘yn cynnal ymchwiliad arall’ a mewnosoder ‘wedi cychwyn ymchwiliad arall i fater’.</p> | <p>Diben y gwelliant hwn (i'w ddarllen gyda gwelliant 31) yw egluro'r amgylchiadau pan na fydd yn rhaid i'r Ombwdsmon baratoi cynnig ymchwilio.</p> <p>Effaith y gwelliant hwn (i'w ddarllen gyda gwelliant 31) yw, os yw'r Ombwdsmon wedi dechrau ymchwiliad o dan adran 3 neu adran 4</p> |

| | | | |
|----|--|--|---|
| | | | (“yr ymchwiliad gwreiddiol”) a'i fod wedi dechrau ymchwiliad arall o dan adran 4 (“yr ymchwiliad cysylltiedig”), yna nid oes rhaid i'r Ombwdsmon baratoi cynnig ymchwilio mewn perthynas â'r ymchwiliad cysylltiedig. |
| 33 | <p>Section 16, page 9, after line 32, insert—</p> <p>() Where the Ombudsman prepares an investigation proposal in relation to a matter, the Ombudsman must—</p> <p>(a) give the listed authority being investigated an opportunity to comment on the investigation proposal;</p> <p>(b) give any person, other than the listed authority, who is identified in the investigation proposal in a negative way, an opportunity to comment on the investigation proposal (as far as the investigation proposal relates to that person).</p> <p>() Where the Ombudsman has begun a related investigation into a matter and no investigation proposal is prepared by virtue of subsection (3), the Ombudsman must—</p> <p>(a) give the listed authority an opportunity to comment on the related investigation;</p> <p>(b) give any person, other than the listed authority, who is identified by the Ombudsman in relation to the related investigation in a negative way, an opportunity to comment on the related</p> | <p>Adran 16, tudalen 9, ar ôl llinell 34, mewnosoder—</p> <p>() Pan fo'r Ombwdsmon yn paratoi cynnig ymchwilio mewn cysylltiad â mater, rhaid i'r Ombwdsmon—</p> <p>(a) rhoi cyfle i'r awdurdod rhestredig yr ymchwilir iddo wneud sylwadau ar y cynnig ymchwilio;</p> <p>(b) rhoi cyfle i unrhyw berson, heblaw'r awdurdod rhestredig, y'i hadwaenir mewn modd negyddol yn y cynnig ymchwilio, wneud sylwadau ar y cynnig ymchwilio (i'r graddau y mae'r cynnig ymchwilio yn ymwneud â'r person hwnnw).</p> <p>() Pan fo'r Ombwdsmon wedi cychwyn ymchwiliad cysylltiedig i fater a phan nad oes cynnig ymchwilio wedi'i baratoi yn rhinwedd is-adran (3), rhaid i'r Ombwdsmon—</p> <p>(a) rhoi cyfle i'r awdurdod rhestredig wneud sylwadau ar yr ymchwiliad cysylltiedig;</p> <p>(b) rhoi cyfle i unrhyw berson, heblaw'r awdurdod rhestredig, y'i hadwaenir gan yr Ombwdsmon mewn modd negyddol mewn perthynas â'r ymchwiliad cysylltiedig, i wneud sylwadau ynghylch yr ymchwiliad cysylltiedig</p> | <p>Diben y gwelliant hwn yw egluro'r weithdrefn sy'n berthnasol i ymchwiliadau, yn enwedig pan fo'n rhaid i'r Ombwdsmon roi cyfle i awdurdodau rhestredig a phersonau y'u gwneir yn hysbys mewn modd negyddol wneud sylwadau ar yr ymchwiliad.</p> <p>Effaith y gwelliant hwn fydd egluro'r weithdrefn ymchwilio fel y gall awdurdodau rhestredig a phersonau eraill roi sylwadau ar ymchwiliadau sy'n cyfeirio atynt.</p> <p>Mae'r geiriau a fewnosodir gan y gwelliant hwn yn disodli'r geiriau a ddilewyd gan welliant 35.</p> |

| | | | |
|----|--|--|--|
| | investigation (as far as the related investigation relates to that person).’. | (i’r graddau y mae’r cynnig ymchwilio yn ymwneud â’r person hwnnw).’. | |
| 34 | Section 16, page 9, line 33, leave out— ‘include— (a) the reasons for the investigation, and (b) how the criteria specified in’ and insert— ‘set out— () the reasons for the investigation, and () how the criteria published under’. | Adran 16, tudalen 9, llinell 35, hepgorer— ‘gynnwys— (a) y rhesymau am yr ymchwiliad, a (b) y modd y bodlonwyd y meini prawf a bennir yn’ a mewnosoder— ‘nodi— () y rhesymau dros yr ymchwiliad, a () y modd y bodlonwyd y meini prawf a gyhoeddwyd o dan’. | Diben y gwelliant hwn yw adlewyrchu'r newidiadau a wneir gan welliant 12. Effaith y gwelliant hwn fydd ei gwneud yn ofynnol i gynnig ymchwilio nodi sut y bodlonwyd y meini prawf a gyhoeddwyd o dan adran 5 (yn ogystal â'r rhesymau dros yr ymchwiliad). |
| 35 | Section 16, page 9, line 36, leave out subsections (6) to (7). | Adran 16, tudalen 9, llinell 38, hepgorer is-adrannau (6) hyd at (7). | Diben y gwelliant hwn yw dileu rhai agweddau ar y weithdrefn ymchwilio a nodir yn yr adran hon. Effaith y gwelliant hwn yw y bydd rhai agweddau ar y weithdrefn ymchwilio yn cael eu dileu. Byddant yn cael eu disodli gan y geiriau a fewnosodir gan welliant 33). |
| 36 | Section 16, page 10, line 17, after ‘investigation’, insert ‘under section 3 or 4’. | Adran 16, tudalen 10, llinell 16, ar ôl ‘ymchwiliad’, mewnosoder ‘o dan adran 3 neu 4’. | Diben y gwelliant hwn yw egluro bod y weithdrefn ar gyfer cynnal ymchwiliad o dan adran 3 ac adran 4 yn cael ei gadael i'r Ombwdsmon (yn amodol ar yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud yn ofynnol mewn perthynas â gweithdrefnau o'r fath). |

| | | | |
|----|--|--|---|
| | | | <p>Effaith y gwelliant hwn fydd egluro y gall yr Ombwdsmon (yn amodol ar yr hyn y mae'r Bil yn ei ddweud) benderfynu ar y weithdrefn sy'n gymwys i ymchwiliadau ar ei liwt ei hun o dan adran 4 yn ogystal ag ymchwiliadau o dan adran 3.</p> |
| 37 | <p>Section 16, page 10, line 27, leave out 'the person aggrieved (if any) and to any other' and insert 'any'.</p> | <p>Adran 16, tudalen 10, llinell 25, hepgorer 'i'r person a dramgwyddwyd (os oes un) ac'.</p> | <p>Diben y gwelliant hwn yw symleiddio'r drafftio yn y rhan hon o'r Bil. Nid oes newid i effaith yr adran hon.</p> |
| 38 | <p>Section 16, page 10, after line 33, insert— '() The Ombudsman must publish the procedure that the Ombudsman will follow when conducting an investigation under section 3 or 4.'</p> | <p>Adran 16, tudalen 10, ar ôl llinell 31, mewnosoder— '() Rhaid i'r Ombwdsmon gyhoeddi'r weithdrefn y bydd yr Ombwdsmon yn ei dilyn wrth gynnal ymchwiliad o dan adran 3 neu 4.'</p> | <p>Diben y gwelliant hwn yw ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon gyhoeddi'r weithdrefn ymchwilio sy'n gymwys i ymchwiliadau o dan adran 3 ac ymchwiliadau ar ei liwt ei hun o dan adran 4.</p> <p>Effaith y gwelliant hwn yw y bydd y cyhoedd yn gallu gweld y gweithdrefnau ymchwilio y mae'n rhaid i'r Ombwdsmon eu dilyn wrth gynnal ymchwiliadau.</p> |
| 39 | <p>Section 20, page 13, leave out line 9 and insert— '() if the investigation relates to a complaint, the person who made the complaint;'</p> | <p>Adran 20, tudalen 13, hepgorer llinell 9 a mewnosoder— '() os yw'r ymchwiliad yn ymwneud â chwyn, y person a wnaeth y gwyn;'</p> | <p>Diben y gwelliant hwn yw ei gwneud yn ofynnol i'r person a wnaeth y gwyn gael copi o adroddiad am ymchwiliad (os yw'r ymchwiliad yn ymwneud â chwyn, hynny yw, ymchwiliad o dan adran 3).</p> <p>Effaith y gwelliant hwn yw y bydd unrhyw un a wnaeth gwyn (ac nid y person a dramgwyddwyd) yn cael copi o adroddiad am ymchwiliad sy'n ymwneud â'r gwyn a wneir gan y person hwnnw.</p> |

| | | | |
|----|---|---|--|
| 40 | Section 23, page 16, line 11, after 'sustained', insert ', or is likely to sustain,'. | Adran 23, tudalen 16, llinell 14, ar ôl 'galedi', mewnosoder ', neu'n debygol o ddiodef anghyfiawnder neu galedi,'. | <p>Diben y gwelliant hwn yw adlewyrchu'r ffaith y gall yr Ombwdsmon ddod i'r casgliad bod person yn debygol o ddiodef anghyfiawnder neu galedi (ac nid yn unig bod person wedi diodef anghyfiawnder neu galedi). Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y gall yr Ombwdsmon ddefnyddio'r pŵer i ymchwilio ar ei liwt ei hun os yw'r Ombwdsmon yn rhagweld bod person yn debygol o ddiodef anghyfiawnder neu galedi.</p> <p>Effaith y gwelliant hwn yw bod rhaid i awdurdod rhestredig ystyried adroddiad lle mae'r Ombwdsmon yn dod i'r casgliad bod rhywun yn debygol o ddiodef anghyfiawnder neu galedi.</p> |
| 41 | Page 16, line 22, leave out section 24. | Tudalen 16, llinell 26, hepgorer adran 24. | <p>Diben y gwelliant hwn yw dileu'r gofyniad i awdurdodau rhestredig gymryd camau penodol yn dilyn adroddiad yr Ombwdsmon (hynny yw, ystyried adroddiadau'r Ombwdsmon cyn ymrwymo i gontractau gyda darparwyr iechyd preifat).</p> <p>Effaith y gwelliant hwn yw na fydd y ddyletswydd honno i ystyried yn gymwys i awdurdodau rhestredig.</p> |
| 42 | Page 16, line 28, leave out section 25. | Tudalen 16, llinell 34, hepgorer adran 25. | <p>Diben y gwelliant hwn yw dileu'r adran sy'n rhoi pŵer i'r Ombwdsmon atgyfeirio awdurdod rhestredig at yr Uchel Lys (os yw'r awdurdod rhestredig wedi anwybyddu</p> |

| | | | |
|----|---|---|---|
| | | | <p>adroddiad Ombwdsmon yn fwriadol heb esgus cyfreithlon).</p> <p>Effaith y gwelliant hwn yw bod adran ddiangen o'r Bil yn cael ei dileu (cymerwyd yr adran o Ddeddf 2005, pryd na ddaethpwyd â hi i rym erioed oherwydd nad yw'r adran yn gweithio).</p> |
| 43 | Section 26, page 17, line 3, after 'sustained', insert ', or is likely to sustain,'. | Adran 26, tudalen 17, llinell 4, ar ôl 'galedi', mewnosoder ', neu'n debygol o ddioddef anghyfiawnder neu galedi,'. | <p>Diben y gwelliant hwn yw adlewyrchu'r ffaith y gall yr Ombwdsmon ddod i'r casgliad bod rhywun yn debygol o ddioddef anghyfiawnder neu galedi (ac nid yn unig bod person wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi). Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y gall yr Ombwdsmon ddefnyddio'r pŵer i ymchwilio ar ei liwt ei hun os yw'r Ombwdsmon yn rhagweld bod rhywun yn debygol o ddioddef anghyfiawnder neu galedi.</p> <p>Effaith y gwelliant hwn yw adlewyrchu'r ffaith y gall yr Ombwdsmon, ar ôl cynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun o dan adran 4, ddod i'r casgliad bod person yn debygol o ddioddef anghyfiawnder neu galedi.</p> |
| 44 | Section 26, page 17, line 8, after 'sustained', insert ', or is likely to sustain,'. | Adran 26, tudalen 17, llinell 9, ar ôl 'galedi', mewnosoder ', neu'n debygol o ddioddef anghyfiawnder neu galedi,'. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 43. |
| 45 | Section 26, page 17, line 10, after 'authority', insert 'to which the investigation relates'. | Adran 26, tudalen 17, llinell 10, ar ôl 'rhestredig', mewnosoder 'y mae'r ymchwiliad yn ymwneud ag ef'. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 29. |

| | | | |
|----|---|---|---|
| 46 | Section 26, page 17, line 15, leave out— ' the listed authority and the person aggrieved (if any)' and insert— 'and the listed authority and, if the investigation relates to a complaint, the person who made the complaint'. | Adran 26, tudalen 17, llinell 15, hepgorer— ' yr awdurdod rhestredig a'r person a dramgwyddwyd (os oes un)' a mewnosoder— 'a'r awdurdod rhestredig ac, os yw'r ymchwiliad yn ymwneud â chwyn, y person a wnaeth y gwyn'. | Diben y gwelliant hwn yw diffinio'r "cyfnod a ganiateir" i gynnwys cyfnod y gellir ei gytuno arno rhwng yr Ombwdsmon a'r awdurdod rhestredig ac unrhyw berson a wnaeth gwyn. Effaith y gwelliant hwn yw y gall unrhyw un a wnaeth y gwyn fod yn rhan o'r broses o gytuno ar y cyfnod a ganiateir (yn hytrach na dim ond unrhyw berson a dramgwyddwyd a wnaeth y gwyn). |
| 47 | Section 26, page 17, leave out line 24 and insert— ' () if the investigation relates to a complaint, the person who made the complaint;'. | Adran 26, tudalen 17, hepgorer llinell 24 a mewnosoder— ' () os yw'r ymchwiliad yn ymwneud â chwyn, y person a wnaeth y gwyn;'. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 39 (mewn perthynas ag adroddiadau o dan y weithdrefn amgen yn unig). |
| 48 | Section 27, page 18, line 15, after 'sustained', insert ', or is likely to sustain,'. | Adran 27, tudalen 18, llinell 16, ar ôl 'galedi', mewnosoder ', neu'n debygol o ddioddef anghyfiawnder eu galedi,'. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 43. |
| 49 | Section 27, page 19, line 1, leave out 'in respect of'. | Nid oes angen diwygio'r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 9. |
| 50 | Section 27, page 19, line 4, after 'sustained', insert ', or is likely to sustain,'. | Adran 27, tudalen 19, llinell 4, ar ôl 'galedi', mewnosoder ', neu'n debygol o ddioddef anghyfiawnder neu galedi,'. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 43. |
| 51 | Section 27, page 19, line 16, after 'remedy', insert 'or prevent'. | Adran 27, tudalen 19, llinell 16, hepgorer 'unioni'r' a mewnosoder 'unioni neu i atal yr'. | Diben y gwelliant hwn yw adlewyrchu'r ffaith y gall yr Ombwdsmon ddod i'r casgliad bod person yn debygol o ddioddef anghyfiawnder neu galedi (ac nid yn unig bod person wedi |

| | | | |
|----|---|---|--|
| | | | <p>dioddef anghyfiawnder neu galedi). Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y gall yr Ombwdsmon ddefnyddio'r pŵer i ymchwilio ar ei liwt ei hun os yw'r Ombwdsmon yn rhagweld bod person yn debygol o ddioddef anghyfiawnder neu galedi.</p> <p>Effaith y gwelliant hwn yw y bydd yr Ombwdsmon yn gallu cynnwys argymhellion mewn adroddiad arbennig i atal unrhyw berson a gaiff ei adnabod mewn ymchwiliad ar ei liwt ei hun (hynny yw, person a nodir ei fod yn debygol o ddioddef anghyfiawnder neu galedi) rhag dioddef anghyfiawnder neu galedi yn y dyfodol (ac nid dim ond argymhellion i unioni'r anghyfiawnder neu'r caledi a ddioddefwyd eisoes gan berson a wnaeth gŵyn).</p> |
| 52 | Section 27, page 19, line 17, after 'caused', insert 'to any person'. | Adran 27, tudalen 19, llinell 17, ar ôl 'achosi', mewnosoder 'i unrhyw berson'. | <p>Diben y gwelliant hwn yw egluro y gall adroddiad arbennig argymhell cymryd camau i atal anghyfiawnder neu galedi tebyg rhag cael ei achosi i unrhyw berson yn y dyfodol.</p> <p>Effaith y gwelliant hwn fydd egluro y gall adroddiadau arbennig gynnwys argymhellion i atal anghyfiawnder neu galedi tebyg rhag cael ei achosi i unrhyw berson yn y dyfodol.</p> |
| 53 | Section 27, page 19, line 22, leave out 'aggrieved (if any) and' and insert— '() who made the complaint, if the investigation relates to a complaint; to'. | Adran 27, tudalen 19, llinell 21, hepgorer 'a dramgwyddwyd (os oes un) a'r' a mewnosoder— | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 39 (mewn perthynas ag adroddiadau arbennig yn unig). |

| | | | |
|----|--|---|--|
| | | '() a wnaeth y gŵyn, os yw'r ymchwiliad yn ymwneud â chŵyn; at y'. | |
| 54 | Section 28, page 20, line 13, leave out subsection (7). | Adran 28, tudalen 20, llinell 14, hepgorer is-adran (7). | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 41 (mewn perthynas ag adroddiadau arbennig yn unig). |
| 55 | Section 31, page 21, line 9, leave out— '(a) the person has functions dischargeable in relation to Wales or a part of Wales (whether or not the functions are also dischargeable otherwise than in relation to Wales), (b) all or some of the person's functions are in a field in which the Welsh Ministers have, or the First Minister or the Counsel General to the Welsh Government has, functions, and (c) the person falls within subsection (3), (4) or (5). (3) A person falls within this subsection if— (a) it is a body established by or under an enactment or by virtue of Her Majesty's prerogative or in any other way by a Minister of the Crown, a government department, the Welsh Ministers, the First Minister for Wales, the Counsel General to the Welsh Government or another listed authority, (b) it is a body wholly or partly constituted by appointment made by Her Majesty, a Minister of the Crown, a government | Adran 31, tudalen 21, llinell 9, hepgorer— '(a) os oes gan y person swyddogaethau i'w cyflawni o ran Cymru neu ran o Gymru (pa un a yw'r swyddogaethau hynny hefyd i'w cyflawni yn rhywle heblaw o ran Cymru ai peidio), (b) os yw holl swyddogaethau'r person neu rai ohonynt mewn maes y mae gan Weinidogion Cymru, neu Brif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol i Lywodraeth Cymru swyddogaethau, ac (c) os yw'r person yn dod o fewn is-adran (3), (4) neu (5). (3) Mae person yn dod o fewn yr is-adran hon— (a) os yw'n gorff a sefydlwyd gan ddeddfiad neu o dan ddeddfiad neu yn rhinwedd uchelfraint Ei Mawrhydi neu mewn unrhyw fodd arall gan Weinidog y Goron, adran o'r llywodraeth, Gweinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru, y Cwnsler Cyffredinol i Lywodraeth Cymru neu awdurdod rhestredig arall, (b) os yw'n gorff a gyfansoddwyd yn llwyr neu'n rhannol drwy benodiad a wnaed gan Ei Mawrhydi, Gweinidog y Goron, adran o'r | Diben y gwelliant hwn yw dileu'r cyfyngiadau diangen (a gopiwyd o Ddeddf 2005) ar y pŵer i ychwanegu personau at y rhestr o awdurdodau rhestredig yn Atodlen 3. Effaith y gwelliant hwn fydd mai un prawf fydd yn gymwys i reoliadau sy'n ychwanegu person fel awdurdod rhestredig – y prawf hwnnw fydd a fyddai ychwanegu person o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. |

| | | | |
|--|---|--|--|
| | <p>department, the Welsh Ministers, the First Minister for Wales, the Counsel General to the Welsh Government or another listed authority, and</p> <p>(c) at least half of its expenditure on the discharge of its functions in relation to Wales is met out of the Welsh Consolidated Fund or is met directly from payments made by other listed authorities.</p> <p>(4) A person falls within this subsection if—</p> <p>(a) it is a body established by or under an enactment, and</p> <p>(b) it has power to issue a precept or a levy.</p> <p>(5) A person falls within this subsection if—</p> <p>(a) it appears to the Welsh Ministers that the person discharges functions of a public nature, and</p> <p>(b) at least half of the person's expenditure on the discharge of those functions in relation to Wales is met out of the Welsh Consolidated Fund or directly or indirectly from payments made by other listed authorities.</p> <p>(6) Regulations under section 30(2) may not add to Schedule 3—</p> <p>(a) a Special Health Authority discharging functions only or mainly in England;</p> <p>(b) a person who carries on under national ownership an industry or undertaking or part of an industry or undertaking.'</p> <p>and insert—</p> | <p>llywodraeth, Gweinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru, y Cwnsler Cyffredinol i Lywodraeth Cymru neu awdurdod rhestredig arall, ac</p> <p>(c) os yw o leiaf hanner ei wariant ar gyflawni'i swyddogaethau o ran Cymru yn cael ei dalu o Gronfa Gyfunol Cymru neu'n cael ei dalu'n uniongyrchol o daliadau a wneir gan awdurdodau rhestredig eraill.</p> <p>(4) Mae person yn dod o fewn yr is-adran hon—</p> <p>(a) os yw'n gorff a sefydlwyd gan ddeddfiad neu o dan ddeddfiad, a</p> <p>(b) os oes ganddo bŵer i ddyroddi praesept neu ardoll.</p> <p>(5) Mae person yn dod o fewn yr is-adran hon—</p> <p>(a) os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru fod y person yn cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus, a</p> <p>(b) os yw o leiaf hanner gwariant y person ar gyflawni'r swyddogaethau hynny o ran Cymru yn cael ei dalu o Gronfa Gyfunol Cymru neu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o daliadau a wneir gan awdurdodau rhestredig eraill.</p> <p>(6) Ni chaniateir i reoliadau o dan adran 30(2) ychwanegu at Atodlen 3—</p> <p>(a) Awdurdod Iechyd Arbennig sy'n cyflawni swyddogaethau yn Lloegr yn unig neu'n bennaf;</p> <p>(b) person sy'n cyflawni, o dan berchnogaeth genedlaethol, ddiwydiant neu ymgymeriad neu ran o ddiwydiant neu ymgymeriad.'</p> | |
|--|---|--|--|

| | | | |
|----|--|--|--|
| | <p>'the provision made by the regulations would be within the legislative competence of the Assembly.'</p> | <p>a mewnosoder—</p> <p>'os byddai'r ddarpariaeth a wneir gan y rheoliadau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.'</p> | |
| 56 | <p>Section 35, page 23, line 20, leave out—</p> <p>'ensure—</p> <p>(a) it has a complaints-handling procedure in respect of action taken by the listed authority, and</p> <p>(b) any such procedure complies with the statement of principles.</p> <p>(3) A listed authority which is responsible, by virtue of any enactment, for a complaints handling procedure—</p> <p>(a) in relation to, or</p> <p>(b) operated by, another listed authority, must ensure the procedure complies with the statement of principles.</p> <p>(4) The first statement of principles under subsection (1) is not to be published unless a draft of the statement has been laid before, and approved by a resolution of, the Assembly.</p> <p>(5) The Assembly may not approve the draft later than two months after being laid.</p> <p>(6) In calculating any period of two months for the purposes of subsection (5), no account is to be taken of any time during</p> | <p>Adran 35, tudalen 23, llinell 22, hepgorer—</p> <p>'sicrhau—</p> <p>(a) bod ganddo weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion mewn cysylltiad â chamau gweithredu a gymerwyd gan yr awdurdod rhestredig, a</p> <p>(b) bod unrhyw weithdrefn o'r fath yn cydymffurfio â'r datganiad o egwyddorion.</p> <p>(3) Rhaid i awdurdod rhestredig sy'n gyfrifol, yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad, am weithdrefn ymdrin â chwynion—</p> <p>(a) mewn perthynas â, neu</p> <p>(b) a weithredir gan, awdurdod rhestredig arall, sicrhau bod y weithdrefn yn cydymffurfio â'r datganiad o egwyddorion.</p> <p>(4) Ni chaniateir cyhoeddi'r datganiad cyntaf o egwyddorion o dan is-adran (1) oni bai bod drafft o'r datganiad wedi'i osod gerbron y Cynulliad, ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.</p> <p>(5) Ni chaniateir i'r Cynulliad gymeradwyo'r drafft ar ôl dau fis wedi iddo gael ei osod.</p> <p>(6) Wrth gyfrifo unrhyw gyfnod o ddau fis at ddibenion is-adran (5), ni chaniateir ystyried unrhyw amser pan fo'r Cynulliad wedi'i</p> | <p>Diben y gwelliant hwn yw dileu'r weithdrefn sy'n gymwys i'r cyhoeddiad gan yr Ombwdsmon am y datganiad o egwyddorion, ac i'w disodli gan weithdrefn arall.</p> <p>Effaith y gwelliant hwn fydd ei gwneud yn ofynnol i'r datganiad o egwyddorion fod yn destun math o weithdrefn penderfyniad negyddol o yn y Cynulliad. Bydd gan y Cynulliad gyfle i benderfynu i beidio â chymeradwyo'r meini prawf.</p> |

| | | | |
|----|---|---|--|
| | <p>which the Assembly is dissolved or is in recess for more than four days.’</p> <p>and insert—</p> <p>‘(a) have a complaints-handling procedure, and (b) ensure that any such procedure complies with the statement of principles. () The Ombudsman must lay a draft of the first statement of principles before the Assembly. () If, before the end of the 40 day period, the Assembly resolves not to approve the draft, the Ombudsman must not publish the statement of principles in the form of the draft. () If no such resolution is made before the end of that period, the Ombudsman must publish the statement of principles in the form of the draft. () The 40 day period— (a) begins on the day on which the draft is laid before the Assembly, and (b) does not include any time during which the Assembly is dissolved or is in recess for more than four days. () Subsection (4) does not prevent a new draft statement of principles from being laid before the Assembly.’</p> | <p>ddiddymu neu pan fydd toriad o fwy na phedwar diwrnod.’</p> <p>a mewnosoder—</p> <p>‘(a) cael gweithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion, a (b) sicrhau bod unrhyw weithdrefn o’r fath yn cydymffurfio â’r datganiad o egwyddorion. () Rhaid i’r Ombwdsmon osod drafft o’r datganiad cyntaf o egwyddorion gerbron y Cynulliad. () Os yw’r Cynulliad yn penderfynu peidio â chymeradwyo’r drafft cyn diwedd y cyfnod o 40 diwrnod, ni chaiff yr Ombwdsmon gyhoeddi’r datganiad o egwyddorion ar ei ffurf ddrafft. () Os na wneir y cyfryw benderfyniad cyn diwedd y cyfnod hwnnw, rhaid i’r Ombwdsmon gyhoeddi’r datganiad o egwyddorion ar ei ffurf ddrafft. () O ran y cyfnod o 40 diwrnod — (a) mae’n dechrau ar y diwrnod pryd y gosodir y drafft gerbron y Cynulliad, a (b) nid yw’n cynnwys unrhyw amser pan fo’r Cynulliad wedi’i ddiddymu neu pan fydd toriad o fwy na phedwar diwrnod. () Nid yw is-adran (4) yn atal datganiad drafft newydd o egwyddorion rhag cael ei osod gerbron y Cynulliad.’</p> | |
| 57 | Section 35, page 24, line 4, leave out ‘in accordance with subsection (4)’. | Adran 35, tudalen 24, llinell 4, hepgorer ‘yn unol ag is-adran (4)’. | Diben y gwelliant hwn yw dileu cyfeiriad at is-adran (4) nad oes ei hangen o ganlyniad i’r |

| | | | |
|----|--|---|--|
| | | | <p>weithdrefn newydd a fewnosodir gan welliant 56.</p> <p>Effaith y gwelliant fydd dileu geiriad dianghenraid.</p> |
| 58 | Section 35, page 24, line 9, leave out 'in accordance with subsection (4)'. | Adran 35, tudalen 24, llinell 10, hepgorer 'yn unol ag is-adran (4)'. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 57. |
| 59 | Section 35, page 24, line 19, leave out 'in respect of which a complaint to the Ombudsman can be made and investigated under section 3' and insert 'the Ombudsman is entitled to investigate under Part 3'. | Adran 35, tudalen 24, llinell 20, hepgorer 'gellir gwneud cwyn i'r Ombwdsmon yn ei gylch ac ymchwilio iddo o dan adran 3' a mewnosoder 'mae gan yr Ombwdsmon hawl i ymchwilio iddo o dan Ran 3'. | <p>Diben y gwelliant hwn yw adlewyrchu'r ffaith y gall yr Ombwdsmon gynnal ymchwiliadau o dan adran 3 ac ymchwiliadau ar ei liwt ei hun o dan adran 4, y mae ill dau yn dod o dan Ran 3 o'r Bil.</p> <p>Effaith y gwelliant hwn yw y bydd yn rhaid i awdurdodau rhestredig gael gweithdrefnau trin cwynion sy'n ymdrin â materion y gall yr Ombwdsmon ymchwilio iddynt o dan Ran 3 yn ei chyfanrwydd.</p> |
| 60 | <p>Section 36, page 24, line 29, leave out subsection (5) and insert—</p> <p>'() A model CHP may not, in its application to a listed authority—</p> <p>(a) impose a duty on the listed authority if the listed authority lacks the necessary powers (other than by virtue of this Act) to ensure compliance with the duty;</p> <p>(b) be inconsistent with any enactment (including any code, guidance, scheme or other document made under any</p> | <p>Adran 36, tudalen 24, llinell 32, hepgorer is-adran (5) a mewnosoder—</p> <p>'() Ni chaniateir i weithdrefn enghreifftiol, o ran ei chymhwysiad i awdurdod rhestredig —</p> <p>(a) gosod dyletswydd ar yr awdurdod rhestredig os nad oes gan yr awdurdod rhestredig y pwerau angenrheidiol (heblaw yn rhinwedd y Ddeddf hon) i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd;</p> <p>(b) bod yn anghyson ag unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys unrhyw god, canllawiau, cynllun neu</p> | <p>Diben y gwelliant hwn yw sicrhau, o ran gweithdrefn enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion:</p> <ul style="list-style-type: none"> - nad yw'n gosod dyletswydd ar awdurdod rhestredig os nad oes gan yr awdurdod rhestredig y pŵer i gydymffurfio â'r ddyletswydd; - nad yw'n anghyson ag unrhyw ddeddfwriaeth (fel rheolau statudol ar gyfer ymdrin â chwynion, ac eithrio'r rheolau trin cwynion yn Rhan 4 o'r Bil) |

| | | | |
|----|---|---|--|
| | <p>enactment) that applies to the listed authority. () The Ombudsman may from time to time revise and re-publish any model CHP; and in doing so— (a) subsection (5) applies, and (b) before re-publishing any model CHP, the Ombudsman must notify such listed authorities or groups of listed authorities as the Ombudsman thinks fit of any revisions to the model CHP.’.</p> | <p>ddogfen arall a wnaed o dan y deddfiad) sy’n gymwys i’r awdurdod rhestredig. () O dro i dro, caiff yr Ombwdsmon adolygu ac ailgyhoeddi unrhyw weithdrefn enghreifftiol; ac wrth wneud hynny — (a) mae is-adran (5) yn gymwys, a (b) cyn ailgyhoeddi unrhyw weithdrefn enghreifftiol, rhaid i’r Ombwdsmon hysbysu’r cyfryw awdurdodau rhestredig neu’r cyfryw grwpiau o awdurdodau rhestredig sy’n briodol ym marn yr Ombwdsmon am unrhyw newidiadau i’r weithdrefn enghreifftiol. ’.</p> | <p>sy’n berthnasol i’r awdurdod rhestredig.</p> <p>Effaith y gwelliant hwn yw y bydd rhaid drafftio gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion mewn ffordd sy’n sicrhau nad ydynt yn creu gwrthdaro i awdurdodau rhestredig.</p> <p>Mae’r gwelliant hwn yn disodli darpariaeth debyg a ddileir gan welliant 72.</p> <p>Mae’r gwelliant hefyd yn egluro y bydd yr un gofynion hefyd yn berthnasol i weithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion pan fyddant yn cael eu hadolygu (a bod yn rhaid i’r Ombwdsmon hysbysu awdurdodau rhestredig o unrhyw welliannau).</p> |
| 61 | <p>Section 36, page 24, leave out line 38 and insert—</p> <p>‘(c) in subsection (3) of that section, reference to receiving notice of the specification under subsection (1) of that section is a reference to receiving notice of the revision under subsection 6(b) of this section.’.</p> | <p>Adran 36, tudalen 24, hepgorer llinell 41 a mewnosoder—</p> <p>‘(c) yn is-adran (3) o’r adran honno, mae cyfeiriad at gael hysbysiad o’r fanyleb o dan is-adran (1) o’r adran honno yn gyfeiriad at gael hysbysiad o’r diwygiad o dan is-adran 6(b) o’r adran hon.’.</p> | <p>Diben y gwelliant hwn yw ei gwneud yn ofynnol i awdurdod rhestredig gyflwyno ei weithdrefn ymdrin â chwynion i’r Ombwdsmon o fewn 6 mis i’r Ombwdsmon ddiwygio gweithdrefn enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion.</p> <p>Effaith y gwelliant hwn yw y bydd yr Ombwdsmon yn gallu gweld sut mae awdurdodau rhestredig wedi diweddarau eu gweithdrefnau ymdrin â chwynion o ganlyniad i’r Ombwdsmon yn diwygio’r weithdrefn enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion.</p> |

| | | | |
|----|--|--|--|
| 62 | <p>Section 36, page 25, line 1, leave out—</p> <p>‘and any specification under section 37(1) in relation the model CHP ceases to have effect.’</p> <p>and insert—</p> <p>‘(8) Where the Ombudsman withdraws a model CHP under subsection (8)—</p> <p>(a) the Ombudsman must, before withdrawing the model CHP, notify each listed authority to which the model CHP is relevant that the model CHP will be withdrawn and when the withdrawal will happen, and</p> <p>(b) on the day the model CHP is withdrawn—</p> <p>(i) any specification under section 37(1) in relation to the withdrawn model CHP ceases to have effect, and</p> <p>(ii) the duty in section 37(3) ceases to apply to a listed authority notified under subsection (9)(a), in so far as the duty arises in relation to the withdrawn model CHP.’.</p> | <p>Adran 36, tudalen 25, llinell 1, hepgorer—</p> <p>‘a bydd unrhyw fanyleb o dan adran 37(1) mewn perthynas â’r weithdrefn enghreifftiol yn peidio â chael effaith.’</p> <p>a mewnosoder—</p> <p>‘(8) Pan fo’r Ombwdsmon yn tynnu gweithdrefn enghreifftiol yn ôl o dan is-adran (8) —</p> <p>(a) rhaid i’r Ombwdsmon, cyn tynnu’r weithdrefn enghreifftiol yn ôl, hysbysu pob awdurdod rhestredig y mae’r weithdrefn enghreifftiol yn berthnasol iddo y bydd y weithdrefn enghreifftiol yn cael ei thynnu’n ôl a phryd y bydd y tynnu’n ôl yn digwydd, a</p> <p>(b) ar y diwrnod y mae’r weithdrefn yn cael ei thynnu’n ôl —</p> <p>(i) bydd unrhyw fanyleb o dan adran 37(1) mewn perthynas â’r weithdrefn enghreifftiol a dynnwyd yn ôl yn peidio â chael effaith, a</p> <p>(ii) bydd y ddyletswydd yn adran 37(3) yn peidio â bod yn gymwys i awdurdod rhestredig a hysbyswyd o dan is-adran (9)(a), i’r graddau y mae’r ddyletswydd yn codi mewn perthynas â’r weithdrefn enghreifftiol a dynnwyd yn ôl.’.</p> | <p>Diben y gwelliant hwn yw egluro beth sy'n digwydd pan fydd yr Ombwdsmon yn tynnu gweithdrefn enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion yn ôl.</p> <p>Effaith y gwelliant hwn yw y bydd yn glir beth y mae'n rhaid i'r Ombwdsmon ei wneud wrth dynnu gweithdrefn enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion yn ôl a pha ddyletswyddau na fydd yn berthnasol bellach i awdurdodau rhestredig yr effeithir arnynt gan y tynnu'n ôl.</p> |
| 63 | <p>Section 37, page 25, line 9, leave out—</p> <p>‘authority must submit a description of the complaints-handling procedure, having taken account of the relevant model CHP,</p> | <p>Adran 37, tudalen 25, llinell 11, hepgorer—</p> <p>‘gyflwyno disgrifiad o’r weithdrefn ymdrin â chwynion, ar ôl rhoi ystyriaeth i’r weithdrefn</p> | <p>Diben y gwelliant hwn yw ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau rhestredig gyflwyno eu gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion i'r Ombwdsmon o fewn 6 mis (yn hytrach na chyflwyno disgrifiad o'u</p> |

| | | | |
|----|--|--|---|
| | <p>within six months of the specification mentioned in that subsection’</p> <p>and insert—</p> <p>‘listed authority must submit its complaints-handling procedure to the Ombudsman, having taken account of the relevant model CHP, within six months beginning with the day the listed authority receives notice of the specification under subsection (1)’.</p> | <p>enghreifftiol, o fewn chwe mis i’r fanyleb a enwir yn yr is-adran honno’</p> <p>a mewnosoder—</p> <p>‘rhestredig gyflwyno ei weithdrefn ymdrin â chwynion i’r Ombwdsmon, ar ôl rhoi ystyriaeth i’r weithdrefn enghreifftiol berthnasol, o fewn chwe mis yn dechrau â’r diwrnod y cafodd yr awdurdod rhestredig yr hysbysiad o’r fanyleb o dan is-adran (1)’.</p> | <p>gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion).</p> <p>Effaith y gwelliant hwn fydd y gall yr Ombwdsmon weld y weithdrefn gyfan yn hytrach na dim ond disgrifiad ohoni.</p> |
| 64 | <p>Section 37, page 25, after line 15, insert—</p> <p>‘(6) Where the Ombudsman revokes a specification under subsection (5)—</p> <p>(a) the Ombudsman must, before revoking the specification, notify each listed authority to which the specification applies that the specification will be revoked and when the revocation will happen, and</p> <p>(b) on the day the specification is revoked—</p> <p>(i) the specification ceases to have effect, and</p> <p>(ii) the duty in subsection (3) ceases to apply to a listed authority notified under subsection (6)(a), in so far as the duty arises in relation to the revoked specification.’.</p> | <p>Adran 37, tudalen 25, ar ôl llinell 17, mewnosoder—</p> <p>‘(6) Pan fo’r Ombwdsmon yn diddymu manyleb o dan is-adran (5)—</p> <p>(a) rhaid i’r Ombwdsmon, cyn dirymu’r fanyleb, hysbysu pob awdurdod rhestredig y mae’r fanyleb yn gymwys iddo y bydd y fanyleb yn cael ei dirymu a phryd y bydd y dirymiad yn digwydd, a</p> <p>(b) ar ddiwrnod dirymu’r fanyleb—</p> <p>(i) bydd y fanyleb yn peidio â chael effaith, a</p> <p>(ii) bydd y ddyletswydd yn is-adran (3) yn peidio â bod yn gymwys i awdurdod rhestredig a hysbyswyd o dan is-adran (6)(a), i’r graddau y mae’r ddyletswydd yn codi mewn perthynas â’r fanyleb a ddirymwyd.’.</p> | <p>Diben y gwelliant hwn yw egluro beth sy’n digwydd pan fydd yr Ombwdsmon yn dirymu manyleb (hynny yw, manyleb sy’n nodi awdurdod rhestredig y mae gweithdrefn enghreifftiol ar gyfer ymdrin â chwynion yn berthnasol iddo).</p> <p>Effaith y gwelliant hwn yw y bydd yn glir beth y mae’n rhaid i’r Ombwdsmon ei wneud wrth ddirymu manyleb a pha ddyletswyddau na fydd yn berthnasol bellach i awdurdodau rhestredig yr effeithir arnynt gan y dirymiad.</p> |
| 65 | <p>Section 38, page 25, line 19, leave out ‘, a description of which was submitted by the</p> | <p>Adran 38, tudalen 25, llinell 21, hepgorer ‘, y rhoddwyd disgrifiad ohoni gan yr awdurdod o dan adran 37(3) neu fel arall,’.</p> | <p>Gwelliant canlyniadol i welliant 63 yw hwn. Mae gwelliant 63 yn dileu cyfeiriad at ddisgrifiad o weithdrefn enghreifftiol, felly nid</p> |

| | | | |
|----|---|--|---|
| | authority under section 37(3) or otherwise,‘. | | oes bellach angen y croesgyfeiriad at ddisgrifiad o weithdrefn enghreifftiol. |
| 66 | Section 38, page 25, line 22, leave out ‘, a description of which was submitted by the authority under section 39 or otherwise,‘. | Adran 38, tudalen 25, llinell 24, hepgorer ‘, y rhoddyd disgrifiad ohoni gan yr awdurdod o dan adran 39 neu fel arall,‘. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 65. |
| 67 | Section 38, page 25, line 25, leave out subsections (3) to (5) and insert— ‘(3) The Ombudsman must publish a declaration under section (1) or (2) on the Ombudsman’s website. (4) Before publishing a declaration under subsection (3), the Ombudsman must notify the listed authority to which the declaration relates— (a) that the Ombudsman will make a declaration, including the Ombudsman’s reasons for making the declaration; (b) of any modifications to the complaints-handling procedure that would result in the declaration being withdrawn. (5) Where a declaration is made under subsection (1) or (2), the listed authority must revise its complaints-handling procedure and submit it to the Ombudsman, having taken account of the reasons given under subsection (4)(a) and any modifications specified in subsection (4)(b), within two months beginning with the day the declaration is published under subsection (3). | Adran 38, tudalen 25, llinell 26, hepgorer is-adrannau (3) hyd at (5) a mewnosoder— ‘(3) Rhaid i’r Ombwdsmon gyhoeddi datganiad o dan adran (1) neu (2) ar wefan yr Ombwdsmon. (4) Cyn cyhoeddi datganiad o dan is-adran (3), rhaid i’r Ombwdsmon hysbysu’r awdurdod rhestredig y mae’r datganiad yn ymwneud ag ef— (a) y bydd yr Ombwdsmon yn gwneud datganiad, gan gynnwys rhesymau’r Ombwdsmon dros wneud y datganiad; (b) am unrhyw addasiadau i’r weithdrefn ymdrin â chwynion a fyddai’n arwain at dynnu’r datganiad yn ôl. (5) Pan fo datganiad yn cael ei wneud o dan is-adran (1) neu (2), rhaid i’r awdurdod rhestredig adolygu ei weithdrefn ymdrin â chwynion a’i chyflwyno i’r Ombwdsmon, ar ôl ystyried y rhesymau a roddir o dan is-adran (4)(a) ac unrhyw addasiadau a bennir yn is-adran (4)(b), o fewn dau fis yn dechrau â’r diwrnod y cyhoeddir y datganiad o dan is-adran (3). (6) Caiff yr Ombwdsmon dynnu’n ôl ddatganiad o beidio â chydymffurfio a wneir o dan is-adran | Diben y gwelliant hwn yw rhoi mwy o fanylion ynghylch y weithdrefn sy’n berthnasol pan fo’r Ombwdsmon yn datgan nad yw’r weithdrefn ymdrin â chwynion awdurdod rhestredig yn cydymffurfio â’r weithdrefn enghreifftiol neu’r datganiad o egwyddorion. Effaith y gwelliant hwn yw y bydd yn rhaid i’r Ombwdsmon gyhoeddi datganiadau o’r fath, ar ôl rhoi hysbysiad gyntaf i’r awdurdod rhestredig. Rhaid i’r awdurdod rhestredig adolygu ei weithdrefn ymdrin â chwynion o fewn dau fis. Mae’r gwelliant hefyd yn egluro y gall yr Ombwdsmon dynnu datganiad yn ôl, ac mae’n nodi’r weithdrefn sy’n berthnasol i dynnu datganiad yn ôl (er enghraifft, rhaid i’r Ombwdsmon hysbysu’r awdurdod rhestredig a rhaid iddo ddiweddarau’r datganiad cyhoeddedig gwreiddiol i adlewyrchu bod y datganiad wedi’i dynnu’n ôl). |

| | | | |
|----|---|--|---|
| | <p>(6) The Ombudsman may withdraw a declaration of non-compliance made under subsection (1) or (2) at any time if the Ombudsman thinks fit.</p> <p>(7) Where the Ombudsman withdraws a declaration under subsection (6)—</p> <p>(a) the Ombudsman must immediately—</p> <p>(i) notify the listed authority to which the declaration relates that the declaration has been withdrawn, including the reasons why the declaration has been withdrawn, and</p> <p>(ii) update the declaration published under subsection (3) to reflect that the declaration has been withdrawn, including the reasons why the declaration has been withdrawn;</p> <p>(b) the duty in subsection (5) ceases to apply to the listed authority, in so far as the duty arises in relation to the withdrawn declaration, as soon as the Ombudsman withdraws the declaration.’</p> | <p>(1) neu (2) ar unrhyw adeg os yw’r Ombwdsmon o’r farn bod hynny’n addas.</p> <p>(7) Pan fo’r Ombwdsmon yn tynnu’n ôl ddatganiad o dan is-adran (6)—</p> <p>(a) rhaid i’r Ombwdsmon ar unwaith—</p> <p>(i) hysbysu’r awdurdod rhestredig y mae’r datganiad yn ymwneud ag ef fod y datganiad wedi ei dynnu’n ôl, gan gynnwys y rhesymau pam y tynnwyd y datganiad yn ôl, a</p> <p>(ii) diweddarau’r datganiad a gyhoeddir o dan is-adran (3) i adlewyrchu bod y datganiad wedi ei dynnu’n ôl, gan gynnwys y rhesymau pam y tynnwyd y datganiad yn ôl;</p> <p>(b) bydd y ddyletswydd o dan is-adran (5) yn peidio â bod yn gymwys i’r awdurdod rhestredig, i’r graddau y mae’r ddyletswydd yn codi mewn perthynas â’r datganiad a dynnwyd yn ôl, cyn gynted ag y bo’r Ombwdsmon yn tynnu’r datganiad yn ôl.’</p> | |
| 68 | <p>Section 39, page 26, line 2, leave out—</p> <p>‘a description of its complaints-handling procedure if the Ombudsman so directs; and must do so within three months of being so directed’</p> <p>and insert—</p> <p>‘its complaints-handling procedure to the Ombudsman if the Ombudsman so directs; and must do so within three months</p> | <p>Adran 39, tudalen 26, llinell 2, hepgorer—</p> <p>‘disgrifiad o’i weithdrefn ymdrin â chwynion os yw’r Ombwdsmon yn cyfarwyddo hynny; a rhaid gwneud hynny cyn pen tri mis ar ôl cael cyfarwyddyd o’r fath’</p> <p>a mewnosoder—</p> <p>‘ei weithdrefn ymdrin â chwynion i’r Ombwdsmon os yw’r Ombwdsmon yn cyfarwyddo hynny; a rhaid gwneud hynny cyn</p> | <p>Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 65.</p> |

| | | | |
|----|---|--|--|
| | beginning with the day the listed authority receives the Ombudsman’s direction’. | pen tri mis sy’n cychwyn â’r diwrnod y mae’r awdurdod rhestredig yn cael y cyfarwyddyd gan yr Ombwdsmon’. | |
| 69 | Section 39, page 26, line 5, leave out subsection (2) and insert— ‘(2) The time limits in sections 37(3) and 38(<i>[third subsection to be inserted by Amendment 67]</i>) are subject to any time limits that apply in a direction given under subsection (1).’. | Adran 39, tudalen 26, llinell 6, hepgorer is-adran (2) a mewnosoder— ‘(2) Mae’r terfynau amser yn adrannau 37(3) a 38(<i>[y drydedd is-adran sy’n cael ei mewnosod gan Gwelliant 67]</i>) yn ddarostyngedig i unrhyw derfynau amser sy’n gymwys mewn cyfarwyddyd a roddir o dan is-adran (1).’. | Diben y gwelliant hwn yw egluro mai dim ond y terfynau amser yn adrannau 37(3) a 38(5) sy’n ddarostyngedig i’r is-adran hon (yn hytrach na bod y cyfan o’r adrannau hynny’n ddarostyngedig i’r is-adran hon). Effaith y gwelliant hwn yw y bydd yn fwy penodol ynghylch cwmpas yr is-adran hon. |
| 70 | Section 39, page 26, line 6, leave out— ‘a description of its complaints-handling procedure to the Ombudsman under this Act or otherwise, the authority must provide such additional information in relation to that procedure as the Ombudsman may reasonably’ and insert— ‘its complaints-handling procedure to the Ombudsman under this Act or otherwise, the authority must provide such additional information in relation to that procedure as the Ombudsman may’. | Adran 39, tudalen 26, llinell 8, hepgorer— ‘disgrifiad o’i weithdrefn ymdrin â chwynion i’r Ombwdsmon o dan y Ddeddf hon neu fel arall, rhaid i’r awdurdod ddarparu’r cyfryw wybodaeth ychwanegol mewn perthynas â’r weithdrefn honno y caiff yr Ombwdsmon yn rhesymol’ a mewnosoder— ‘ei weithdrefn ymdrin â chwynion i’r Ombwdsmon o dan y Ddeddf hon neu fel arall, rhaid i’r awdurdod ddarparu’r cyfryw wybodaeth ychwanegol mewn perthynas â’r weithdrefn honno y caiff yr Ombwdsmon’. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 65. |
| 71 | Section 40, page 26, line 19, leave out subsection (3) and insert— | Adran 40, tudalen 26, llinell 22, hepgorer is-adran (3) a mewnosoder— | Diben y gwelliant hwn yw egluro na all yr Ombwdsmon ofyn i awdurdod rhestredig |

| | | | |
|----|---|--|---|
| | <p>'(3) But the Ombudsman may not require a listed authority to co-operate under subsection (2)—</p> <p>(a) if the listed authority lacks the necessary powers (other than by virtue of this Act) to co-operate under subsection (2);</p> <p>(b) if co-operating under subsection (2) requires the listed authority to act inconsistently with any enactment (including any code, guidance, scheme or other document made under any enactment) that applies to the listed authority.'</p> | <p>'(3) Ond ni chaiff yr Ombwdsmon ei gwneud yn ofynnol i awdurdod rhestredig gydweithredu o dan is-adran (2)—</p> <p>(a) os nad oes gan yr awdurdod rhestredig y pwerau angenrheidiol (heblaw yn rhinwedd y Ddeddf hon) i gydweithredu o dan is-adran (2);</p> <p>(b) os yw cydweithredu o dan is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod rhestredig weithredu yn anghyson ag unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys unrhyw god, canllaw, cynllun neu ddogfen arall a wneir o dan unrhyw ddeddfiad) sy'n gymwys i'r awdurdod rhestredig.'</p> | <p>gydweithredu â'r Ombwdsmon o dan yr adran hon i'r graddau:</p> <ul style="list-style-type: none"> - nad oes gan yr awdurdod rhestredig y pŵer i gydweithredu, neu - y byddai cydweithredu yn anghyson ag unrhyw ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r awdurdod rhestredig. <p>Effaith y gwelliant hwn yw y bydd yn rhaid i'r Ombwdsmon fod yn ymwybodol o sut y bydd gofyniad i gydweithredu o dan yr adran hon yn effeithio ar awdurdodau rhestredig.</p> |
| 72 | Page 26, line 24, leave out section 41. | Tudalen 27, llinell 26, hepgorer adran 41. | <p>Diben y gwelliant hwn yw dileu darpariaethau adran 41 ynghylch cymhwyso a dehongli Rhan 4 o'r Bil.</p> <p>O ran cymhwyso, effaith y gwelliant yw nad yw adran 41 yn ymdrin â chymhwyso (gwelliant 60 sy'n ymdrin â hynny).</p> <p>O ran dehongli, nid yw'r cyfeiriad at eithrio "darparwyr gwasanaethau iechyd preifat" bellach yn angenrheidiol (gweler gwelliannau 23 a 150 yn benodol, sy'n dileu cyfeiriadau at "ddarparwyr gwasanaethau iechyd preifat").</p> |
| 73 | Section 43, page 28, line 1, leave out 'or referred'. | Adran 43, tudalen 28, llinell 1, hepgorer 'neu wedi'i hatgyfeirio'n briodol at yr' a mewnosoder 'i'r'. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 2 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 yn unig). |

| | | | |
|----|--|--|--|
| 74 | Section 43, page 28, line 1, after 'Ombudsman,', insert— 'or () duly referred to the Ombudsman,'. | Adran 43, tudalen 28, llinell 2, ar ôl 'Ombwdsmon,', mewnosoder— 'neu () wedi'i hatgyfeirio'n briodol at yr Ombwdsmon,'. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 3 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 yn unig). |
| 75 | Section 43, page 28, line 21, leave out '48' and insert '48(1)'. | Adran 43, tudalen 28, llinell 21, hepgorer '48' a mewnosoder '48(1)'. | Diben y gwelliant hwn yw darparu croesgyfeiriad mwy penodol. Effaith y gwelliant hwn fydd darparu croesgyfeiriad mwy cywir, gan wella eglurder y Bil. |
| 76 | Section 43, page 28, line 25, leave out '49' and insert '49(1)'. | Adran 43, tudalen 28, llinell 25, hepgorer '49' a mewnosoder '49(1)'. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 75. |
| 77 | Section 43, page 28, line 29, leave out '48' and insert '48(1)'. | Adran 43, tudalen 28, llinell 29, hepgorer '48' a mewnosoder '48(1)'. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 75. |
| 78 | Section 43, page 28, line 35, after 'investigation', insert '(but see section 48(5)(<i>first paragraph to be inserted by Amendment 86</i>) for a restriction on the power to begin an investigation under subsection (1)(a))'. | Adran 43, tudalen 28, llinell 35, ar ôl 'ben', mewnosoder '(ond gweler adran 48(5)(<i>ly paragraff cyntaf sy'n cael ei fewnosod gan Gwelliant 86</i>) am gyfyngiad ar y pŵer i gychwyn ymchwiliad o dan is-adran (1)(a))'. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 6 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 o'r Bil yn unig). |
| 79 | Section 43, page 28, line 39, after 'withdrawn', insert '(but see section 48(5)(<i>first paragraph to be inserted by Amendment 86</i>) for a restriction on the power to begin an investigation under subsection (1)(a))'. | Adran 43, tudalen 28, llinell 39, ar ôl 'ôl', mewnosoder '(ond gweler adran 48(5)(<i>ly paragraff cyntaf sy'n cael ei fewnosod gan Gwelliant 86</i>) am gyfyngiad ar y pŵer i gychwyn ymchwiliad o dan is-adran (1)(a))'. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 6 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 o'r Bil yn unig). |

| | | | |
|----|---|---|--|
| 80 | <p>Section 44, page 29, line 6, leave out subsections (3) to (5) and insert—</p> <p>‘(3) Before the Ombudsman begins an investigation under this section, the Ombudsman must—</p> <p>(a) have regard to the public interest in beginning an investigation,</p> <p>(b) have a reasonable suspicion that there is systemic maladministration,</p> <p>(c) consult such persons as the Ombudsman considers appropriate (but see section 65 for further duties around consultation), and</p> <p>(d) have regard to the criteria for own initiative investigations published under section 45.</p> <p>(4) Subject to subsection (3)—</p> <p>(a) it is for the Ombudsman to decide whether to begin, continue or discontinue an investigation under this section;</p> <p>(b) the Ombudsman may take any action the Ombudsman thinks may assist in making a decision under subsection (4)(a).’.</p> | <p>Adran 44, tudalen 29, llinell 7, hepgorer is-adrannau (3) hyd at (5) a mewnosoder—</p> <p>‘(3) Cyn i’r Ombwdsmon gychwyn ymchwiliad o dan yr adran hon, rhaid i’r Ombwdsmon –</p> <p>(a) rhoi sylw i fudd y cyhoedd wrth gychwyn ymchwiliad,</p> <p>(b) bod ag amheuaeth resymol o gamweinyddiaeth systemig,</p> <p>(c) ymgynghori â’r cyfryw bersonau sy’n briodol ym marn yr Ombwdsmon (ond gweler adran 65 am ddyletswyddau pellach ynghylch ymgynghori), a</p> <p>(d) rhoi sylw i’r meini prawf ar gyfer cychwyn ymchwiliadau ar ei liwt ei hun a gyhoeddir o dan adran 45.</p> <p>(4) Yn ddarostyngedig i is-adran (3) —</p> <p>(a) mater i’r Ombwdsmon yw penderfynu pa un ai i gychwyn ymchwiliad, i barhau ag ymchwiliad ai i roi’r gorau i’r ymchwiliad o dan yr adran hon;</p> <p>(b) caiff yr Ombwdsmon gymryd unrhyw gamau gweithredu a all, ym marn yr Ombwdsmon, helpu i wneud penderfyniad o dan is-adran (4)(a).’.</p> | <p>Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 11 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 yn unig).</p> |
| 81 | <p>Section 45, page 29, line 13, leave out—</p> <p>‘(1) Before the Ombudsman begins an investigation under section 44, the Ombudsman must be satisfied that beginning an investigation is in the public</p> | <p>Adran 45, tudalen 29, llinell 16, hepgorer—</p> <p>‘(1) Cyn i’r Ombwdsmon gychwyn ymchwiliad o dan adran 44, rhaid i’r Ombwdsmon fod yn fodlon bod cychwyn ymchwiliad er budd y cyhoedd a bod un neu ragor o’r meini prawf yn is-adran (2) wedi’u bodloni.</p> | <p>Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 12 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 yn unig).</p> |

| | | | |
|--|--|---|--|
| | <p>interest and that one or more of the criteria in subsection (2) is met.</p> <p>(2) The criteria are—</p> <p>(a) any vulnerable or disadvantaged person (for example, a person who would have particular difficulty in making a complaint to the Ombudsman or a provider) is likely to sustain injustice or hardship in consequence of the matter that is being considered for investigation;</p> <p>(b) having regard to complaints received by the Ombudsman, the matter being considered for investigation is likely to amount to a systemic failure that may cause any person to sustain injustice or hardship.</p> <p>(3) The Welsh Ministers may by regulations amend the criteria in subsection (2) by adding criteria, removing criteria or changing the criteria.</p> <p>(4) Before making regulations under subsection (3), the Welsh Ministers must consult the Ombudsman and any other persons they think appropriate.</p> <p>(5) No regulations are to be made under subsection (3)</p> <p>and insert—</p> <p>‘() The Ombudsman must publish criteria to be used in determining whether to begin an investigation under section 44.</p> <p>() The Ombudsman must lay a draft of the first criteria before the Assembly.</p> | <p>(2) Y meini prawf yw—</p> <p>(a) bod unrhyw berson hyglwyf neu dan anfantais (er enghraifft, person a fyddai'n cael anhawster penodol i wneud cwyn i'r Ombwdsmon neu ddarparwr) yn debygol o ddioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r mater yr ystyrir ymchwilio iddo;</p> <p>(b) gan roi sylw i gwynion a gafodd yr Ombwdsmon, fod y mater yr ystyrir ymchwilio iddo yn debygol o fod yn fethiant systemig a all achosi i unrhyw berson ddioddef anghyfiawnder neu galedi.</p> <p>(3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio'r meini prawf yn is-adran (2) drwy ychwanegu meini prawf, dileu meini prawf neu newid y meini prawf.</p> <p>(4) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (3), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ombwdsmon ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol yn eu barn hwy.</p> <p>(5) Ni chaniateir gwneud rheoliadau o dan is-adran (3)</p> <p>a mewnosoder—</p> <p>‘() Rhaid i'r Ombwdsmon gyhoeddi meini prawf i'w defnyddio wrth benderfynu pa un ai i gychwyn ymchwiliad o dan adran 44 .</p> <p>() Rhaid i'r Ombwdsmon osod drafft o'r meini prawf cyntaf gerbron y Cynulliad.</p> <p>() Os yw'r Cynulliad yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r meini prawf drafft cyn diwedd y cyfnod o 40 diwrnod, ni chaiff yr</p> | |
|--|--|---|--|

| | | |
|---|--|--|
| <p>() If, before the end of the 40 day period, the Assembly resolves not to approve the draft criteria, the Ombudsman must not publish the criteria in the form of the draft.</p> <p>() If no such resolution is made before the end of that period, the Ombudsman must publish the criteria in the form of the draft.</p> <p>() The 40 day period—</p> <p>(a) begins on the day on which the draft is laid before the Assembly, and</p> <p>(b) does not include any time during which the Assembly is dissolved or is in recess for more than four days.</p> <p>() Subsection (3) does not prevent new draft criteria from being laid before the Assembly.</p> <p>() Before laying the draft criteria before the Assembly, the Ombudsman must consult—</p> <p>(a) the Welsh Ministers,</p> <p>(b) the listed authorities in Schedule 3, and</p> <p>(c) such other persons as the Ombudsman thinks appropriate.</p> <p>() The Ombudsman must, in preparing the draft criteria to be laid before the Assembly, have regard to any representations made during the consultation mentioned in subsection (7).</p> <p>() The criteria come into force when they are published by the Ombudsman.</p> <p>() The Ombudsman may from time to time revise and re-publish the criteria.</p> <p>() Where the Ombudsman considers that any revision of the criteria under subsection</p> | <p>Ombwdsmon gyhoeddi'r meini prawf ar eu ffurf ddrafft.</p> <p>() Os na wneir y cyfryw benderfyniad cyn diwedd y cyfnod hwnnw, rhaid i'r Ombwdsmon gyhoeddi'r meini prawf ar eu ffurf ddrafft.</p> <p>() O ran y cyfnod o 40 diwrnod —</p> <p>(a) mae'n dechrau ar y diwrnod pryd y gosodir y drafft gerbron y Cynulliad, a</p> <p>(b) nid yw'n cynnwys unrhyw amser pan fo'r Cynulliad wedi ei ddiddymu neu pan fydd toriad o fwy na phedwar diwrnod.</p> <p>() Nid yw is-adran (3) yn atal meini prawf drafft newydd rhag cael eu gosod gerbron y Cynulliad.</p> <p>() Cyn gosod y meini prawf drafft gerbron y Cynulliad, rhaid i'r Ombwdsmon ymgynghori â'r canlynol —</p> <p>(a) Gweinidogion Cymru,</p> <p>(b) yr awdurdodau rhestredig yn Atodlen 3, ac</p> <p>(c) y cyfryw bersonau eraill sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon.</p> <p>() Rhaid i'r Ombwdsmon, wrth baratoi'r meini prawf drafft i'w gosod gerbron y Cynulliad, roi sylw i unrhyw sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad a grybwyllir yn is-adran (7).</p> <p>() Daw'r meini prawf i rym pan gânt eu cyhoeddi gan yr Ombwdsmon.</p> <p>() O dro i dro, caiff yr Ombwdsmon adolygu ac ailgyhoeddi'r meini prawf.</p> <p>() Pan fo'r Ombwdsmon o'r farn bod unrhyw adolygiad o'r meini prawf o dan is-adran (10) yn berthnasol, mae is-adrannau (2) i (8) yn</p> | |
|---|--|--|

| | | | |
|----|---|---|---|
| | <p>(10) is material, subsections (2) to (8) apply to the criteria as they do to the first criteria.</p> <p>() The Welsh Ministers may by regulations amend criteria published by the Ombudsman under this section by adding criteria, removing criteria or changing the criteria.</p> <p>() Where the Welsh Ministers make regulations under subsection (12), the Ombudsman must publish the criteria, as amended by the regulations, on the day the regulations come into force.</p> <p>() Before making regulations under subsection (12), the Welsh Ministers must consult—</p> <p>(a) the Ombudsman,</p> <p>(b) the listed authorities in Schedule 3, and</p> <p>(c) such other persons as the Welsh Ministers think appropriate.</p> <p>() No regulations are to be made under subsection (12)'.</p> | <p>gymwys i'r meini prawf hynny fel y maent yn gymwys i'r meini prawf cyntaf.</p> <p>() Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio'r meini prawf a gyhoeddir gan yr Ombwdsmon o dan yr adran hon drwy ychwanegu meini prawf, dileu meini prawf neu newid y meini prawf.</p> <p>() Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau o dan is-adran (12), rhaid i'r Ombwdsmon gyhoeddi'r meini prawf, fel y'u diwygiwyd gan y rheoliadau, ar y diwrnod y daw'r rheoliadau i rym.</p> <p>() Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (12), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol—</p> <p>(a) yr Ombwdsmon,</p> <p>(b) yr awdurdodau rhestredig yn Atodlen 3, ac</p> <p>(c) y cyfryw bersonau eraill sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.</p> <p>() Ni chaniateir gwneud rheoliadau o dan is-adran (12)'.</p> | |
| 82 | Section 47, page 30, line 8, leave out 'a person to act on his or her behalf' and insert 'such a person'. | Adran 47, tudalen 30, llinell 8, hepgorer 'awdurdodi person i weithredu ar ei ran' a mewnosoder 'awdurdodi'r cyfryw berson'. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 15 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 yn unig). |
| 83 | Section 48, page 30, line 23, after 'matter', insert 'alleged in the complaint'. | Adran 48, tudalen 30, llinell 25, ar ôl 'mater', mewnosoder 'a honnir yn y gŵyn'. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 16 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 yn unig). |
| 84 | Section 48, page 30, line 29, leave out 'aggrieved' and insert 'who made the complaint'. | Adran 48, tudalen 30, llinell 31, hepgorer 'dramgwyddwyd' a mewnosoder 'wnaeth y gŵyn'. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 17 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 yn unig). |

| | | | |
|----|---|---|---|
| 85 | Section 48, page 30, line 31, leave out 'he or she' and insert 'the person'. | Nid oes angen diwygio'r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 20 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 yn unig). |
| 86 | Section 48, page 30, line 34, leave out '43 to investigate the matter' and insert— '43(1)(a) to begin an investigation into the matter alleged in the complaint; (b) may use the power in section 44 to investigate the matter alleged in the complaint'. | Adran 48, tudalen 30, llinell 36, hepgorer 'rhaid i'r Ombwdsmon beidio â defnyddio'r pŵer yn adran 43 i ymchwilio i'r mater' a mewnosoder— 'ni chaiff yr Ombwdsmon ddefnyddio'r pŵer yn adran 43(1)(a) i gychwyn ymchwiliad i'r mater a honnir yn y gŵyn; (b) caiff yr Ombwdsmon ddefnyddio'r pŵer yn adran 44 i ymchwilio i'r mater a honnir yn y gŵyn'. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 19 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 yn unig). |
| 87 | Section 48, page 30, line 36, leave out 'he or she' and insert 'the person'. | Nid oes angen diwygio'r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 20 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 yn unig). |
| 88 | Section 48, page 31, line 3, leave out subsections (8) to (10). | Adran 48, tudalen 31, llinell 3, hepgorer is-adrannau (8) hyd at (10). | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 21 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 yn unig). |
| 89 | Page 31, after line 20, insert a new section— [] Records of complaints The Ombudsman must maintain a register of every complaint made or referred to the Ombudsman in respect of a matter which | Tudalen 31, ar ôl llinell 21, mewnosoder adran newydd— [] Cofnodion o gwynion Rhaid i'r Ombwdsmon gynnal cofrestr o bob cwyn a wnaed i'r Ombwdsmon neu a atgyfeiriwyd at yr Ombwdsmon mewn | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 22 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 yn unig). |

| | | | |
|----|---|---|--|
| | the Ombudsman is entitled to investigate under this Part.’. | perthynas â mater y mae gan yr Ombwdsmon hawl i ymchwilio iddo o dan y Rhan hon.’. | |
| 90 | <p>Section 50, page 31, line 23, leave out—</p> <p>‘under section 43(8) or section 44(4)— (a) not to begin an investigation, or (b) to discontinue an investigation,’</p> <p>and insert—</p> <p>‘(a) not to begin an investigation, or to discontinue an investigation, into a matter under section 43(8), or (b) where the Ombudsman has consulted a person under section 43(<i>[third paragraph of first subsection inserted by Amendment 80]</i>), decides not to begin an investigation, or to discontinue an investigation, into a matter under section 43(<i>[first paragraph of second subsection to be inserted by Amendment 80]</i>)’.</p> | <p>Adran 50, tudalen 31, llinell 24, hepgorer—</p> <p>‘o dan adran 43(8) neu adran 44(4)— (a) i beidio â dechrau ymchwiliad, neu (b) i ddod ag ymchwiliad i ben,’</p> <p>a mewnosoder—</p> <p>‘(a) peidio â chychwyn ymchwiliad, neu roi’r gorau i ymchwiliad, i fater o dan adran 43(8), neu (b) pan fo’r Ombwdsmon wedi ymgynghori â pherson o dan adran 43 (<i>[trydydd paragraff yr is-adran gyntaf sy’n cael ei mewnosod gan Gwelliant 80]</i>), yn penderfynu peidio â chychwyn ymchwiliad, neu roi’r gorau i ymchwiliad, i fater o dan adran 43 (<i>[paragraff cyntaf yr ail is-adran sy’n cael ei mewnosod gan Gwelliant 80]</i>)’.</p> | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliannau 25 i 27 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 yn unig). |
| 91 | Section 50, page 31, line 28, leave out ‘the person aggrieved (if any)’ at the second place where it appears and insert ‘any person who made a complaint to the Ombudsman in respect of the matter’. | Adran 50, tudalen 31, llinell 29, hepgorer ‘y person a dramgwyddwyd (os oes un)’ a mewnosoder ‘unrhyw berson a wnaeth gŵyn i’r Ombwdsmon mewn perthynas â’r mater’. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 28 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 yn unig). |
| 92 | Section 51, page 32, line 23, after ‘investigated’, insert— , and | Adran 51, tudalen 32, llinell 24, ar ôl ‘iddo’, mewnosoder— , a | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 28 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 yn unig). |

| | | | |
|----|---|---|--|
| | (ii) any person, other than the provider, who is identified in the investigation proposal in a negative way’. | (ii) i unrhyw berson, heblaw’r darparwr, y’i hadwaenir mewn modd negyddol yn y cynnig ymchwilio’. | |
| 93 | Section 51, page 32, line 25, leave out ‘has prepared an investigation proposal in respect of an investigation under section’. | Adran 51, tudalen 32, llinell 26, hepgorer ‘wedi paratoi cynnig ymchwiliad sy’n ymwneud ag ymchwiliad o dan adran’. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 31 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 yn unig). |
| 94 | Section 51, page 32, line 28, leave out ‘is conducting another investigation’ at the second place where it appears and insert ‘has begun another investigation into a matter’. | Adran 51, tudalen 32, llinell 29, hepgorer ‘yn cynnal ymchwiliad arall’ a mewnosoder ‘wedi cychwyn ymchwiliad arall i fater’. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 32 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 yn unig). |
| 95 | Section 51, page 32, line 34, leave out subsection (5) to (7) and insert— ‘() Where the Ombudsman prepares an investigation proposal in relation to a matter, the Ombudsman must— (a) give the provider being investigated an opportunity to comment on the investigation proposal; (b) give any person, other than the provider, who is identified in the investigation proposal in a negative way, an opportunity to comment on the investigation proposal (as far as the investigation proposal relates to that person). () Where the Ombudsman has begun a related investigation into a matter and no investigation proposal is prepared by virtue of subsection (3), the Ombudsman must— | Adran 51, tudalen 32, llinell 35, hepgorer is-adrannau (5) hyd at (7) a mewnosoder— ‘() Pan fo’r Ombwdsmon yn paratoi cynnig ymchwilio mewn perthynas â mater, rhaid i’r Ombwdsmon— (a) rhoi cyfle i’r darparwr yr ymchwilir iddo wneud sylwadau ar y cynnig ymchwilio; (b) rhoi cyfle i unrhyw berson, heblaw’r darparwr, y’i hadwaenir mewn modd negyddol, wneud sylwadau ar y cynnig ymchwilio (i’r graddau y mae’r ymchwiliad yn ymwneud â’r person hwnnw). () Pan fo’r Ombwdsmon wedi cychwyn ymchwiliad cysylltiedig i fater ac nad oes cynnig ymchwilio wedi’i baratoi yn rhinwedd is-adran (3), rhaid i’r Ombwdsmon— (a) rhoi cyfle i’r darparwr wneud sylwadau ar yr ymchwiliad cysylltiedig; | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliannau 33 a 34 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 yn unig). |

| | | | |
|----|--|---|---|
| | <p>(a) give the provider an opportunity to comment on the related investigation;</p> <p>(b) give any person, other than the provider, who is identified by the Ombudsman in relation to the related investigation in a negative way, an opportunity to comment on the related investigation (as far as the related investigation relates to that person).</p> <p>() An investigation proposal must set out—</p> <p>(a) the reasons for the investigation, and</p> <p>(b) how the criteria published under section 45 have been met.’.</p> | <p>(b) rhoi cyfle i unrhyw berson, heblaw’r darparwr, y’i hadwaenir gan yr Ombwdsmon mewn modd negyddol mewn perthynas â’r ymchwiliad, wneud sylwadau ar yr ymchwiliad cysylltiedig (i’r graddau y mae’r ymchwiliad yn ymwneud â’r person hwnnw).</p> <p>() Rhaid i gynnig ymchwilio nodi—</p> <p>(a) y rhesymau dros yr ymchwiliad, a</p> <p>(b) y modd y bodlonwyd y meini prawf y cyfeirir atynt yn adran 45.’.</p> | |
| 96 | Section 51, page 33, line 15, after ‘investigation’, insert ‘under section 43 or 44’. | Adran 51, tudalen 33, llinell 16, ar ôl ‘ymchwiliad’, mewnosoder ‘o dan adran 43 neu 44’. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 36 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 yn unig). |
| 97 | Section 51, page 33, line 25, leave out ‘the person aggrieved (if any) and to any other’ and insert ‘any’. | Adran 51, tudalen 33, llinell 25, hepgorer ‘i’r person a dramgwyddwyd (os oes un) ac i unrhyw berson arall’ a mewnosoder ‘i unrhyw berson’. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 37 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 yn unig). |
| 98 | Section 51, page 33, after line 29, insert— ‘(14) The Ombudsman must publish the procedure that the Ombudsman will follow when conducting an investigation under section 43 or 44.’. | Adran 51, tudalen 33, ar ôl llinell 30, mewnosoder— ‘(14) Rhaid i’r Ombwdsmon gyhoeddi’r weithdrefn y bydd yr Ombwdsmon yn ei dilyn wrth gynnal ymchwiliad o dan adran 43 neu 44.’. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 38 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 yn unig). |
| 99 | Section 54, page 34, leave out line 34 and insert— | Adran 54, tudalen 34, hepgorer llinell 37 a mewnosoder— | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 39 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 yn unig). |

| | | | |
|-----|---|--|---|
| | '() if the investigation relates to a complaint, the person who made the complaint,'. | '() os bydd yr ymchwiliad yn ymwneud â chwyn, y person a wnaeth y gŵyn,'. | |
| 100 | Section 56, page 36, line 13, leave out 'authority' and insert 'provider'. | Adran 56, tudalen 36, llinell 15, hepgorer 'awdurdod' a mewnosoder 'darparwr'. | Diben y gwelliant hwn yw newid cyfeiriad anghywir yn y Bil. Effaith hyn fydd cynnwys y cyfeiriad cywir at "ddarparwr". |
| 101 | Section 57, page 36, line 19, after 'sustained', insert ', or is likely to sustain,'. | Adran 57, tudalen 36, llinell 22, ar ôl 'galedi', mewnosoder ', neu'n debygol o ddiodef anghyfiawnder neu galedi,'. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 43 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 yn unig). |
| 102 | Section 57, page 36, line 25, after 'sustained', insert ', or is likely to sustain,'. | Adran 57, tudalen 36, llinell 28, ar ôl 'galedi', mewnosoder ', neu'n debygol o ddiodef anghyfiawnder neu galedi,'. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 43 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 yn unig). |
| 103 | Section 57, page 36, line 33, leave out ', the provider and the person aggrieved (if any)' and insert 'and the provider and, if the investigation relates to a complaint, the person who made the complaint'. | Adran 57, tudalen 36, llinell 35, hepgorer ', y darparwr a'r person a dramgwyddwyd (os oes un)' a mewnosoder 'a'r darparwr ac, os yw'r ymchwiliad yn ymwneud â chwyn, y person a wnaeth y gŵyn'. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 46 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 yn unig). |
| 104 | Section 57, page 37, line 5, leave out 'the person aggrieved (if any) and' and insert— '(i) if the investigation relates to a complaint, the person who made the complaint;' | Adran 57, tudalen 37, llinell 5, hepgorer 'at y person a dramgwyddwyd (os oes un) ac' a mewnosoder— '(i) os yw'r ymchwiliad yn ymwneud â chwyn, at y person a wnaeth y gŵyn;' | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 47 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 yn unig). |
| 105 | Section 58, page 37, line 31, after 'sustained', insert ', or is likely to sustain,'. | Adran 58, tudalen 37, llinell 32, ar ôl 'galedi', mewnosoder ', neu'n debygol o ddiodef anghyfiawnder neu galedi,'. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 43 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 yn unig). |

| | | | |
|-----|--|--|---|
| 106 | Section 58, page 38, line 22, after 'sustained', insert ', or is likely to sustain,'. | Adran 58, tudalen 38, llinell 23, ar ôl 'galedi', mewnosoder ', neu'n debygol o ddiodef anghyfiawnder neu galedi,'. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 43 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 yn unig). |
| 107 | Section 59, page 38, line 36, after 'remedy', insert 'or prevent'. | Adran 59, tudalen 38, llinell 37, hepgorer 'unioni'r' a mewnosoder 'unioni neu atal yr'. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 51 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 yn unig). |
| 108 | Section 59, page 38, line 37, after 'caused', insert 'to any person'. | Adran 59, tudalen 38, llinell 38, ar ôl 'achosi', mewnosoder 'i unrhyw berson'. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 52 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 yn unig). |
| 109 | Section 59, page 39, line 5, leave out 'the person aggrieved (if any) and' and insert— '(a) if the investigation relates to a complaint, the person who made the complaint;': | Adran 59, tudalen 39, llinell 5, hepgorer 'at y person a dramgwyddwyd (os oes un) a'r' a mewnosoder— '(a) os yw'r ymchwiliad yn ymwneud â chwyn, at y person a wnaeth y gwyn; at y'. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 53 (mewn perthynas ag ymchwiliadau o dan Ran 5 yn unig). |
| 110 | Section 64, page 42, line 5, leave out '4(3), 43(8), 44(4)' and insert '4(3)(<i>first paragraph of second subsection to be inserted by Amendment 11</i>), 43(8), 44(4)(<i>first paragraph of second subsection to be inserted by Amendment 80</i>)'. | Adran 64, tudalen 42, llinell 6, hepgorer '4(3), 43(8) neu 44(4)' a mewnosoder '4(3)(<i>paragraff cyntaf yr ail is-adran sy'n cael ei mewnosod gan Gwelliant 11</i>), 43(8), 44(4)(<i>paragraff cyntaf yr ail is-adran sy'n cael ei mewnosod gan Gwelliant 80</i>) neu'. | Gwelliant canlyniadol i welliannau 11 ac 80 yw hwn. Mae gwelliannau 11 ac 80 yn creu is-adrannau newydd ac mae'r gwelliant hwn yn diweddar'r croesgyfeiriad at yr is-adrannau newydd hynny. |
| 111 | Section 65, page 43, line 10, leave out 'examination' and insert 'investigation'. | Adran 65, tudalen 43, llinell 10, hepgorer 'archwiliad' a mewnosoder 'ymchwiliad'. | Diben y gwelliant hwn yw egluro'r cyfeiriad at ymchwiliadau y gellir eu cynnal gan y Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Pobl Hŷn etc. Effaith y gwelliant hwn (ynghyd â gwelliant 136) fydd sicrhau bod yr Ombwdsmon a'r |

| | | | |
|-----|---|---|--|
| | | | Comisiynwyr etc. yn glir ynghylch pryd y gallant gydweithio ar faterion. |
| 112 | <p>Section 65, page 43, leave out lines 17 to 19 and insert—</p> <p>‘(e) where the matter relates to health or social care, the Welsh Ministers.’</p> | <p>Adran 65, tudalen 43, hepgorer llinellau 17 hyd at 19 a mewnosoder—</p> <p>‘(e) pan fo’r mater yn ymwneud ag iechyd neu ofal cymdeithasol, Gweinidogion Cymru.’</p> | <p>Diben y gwelliant hwn yw cynnwys Gweinidogion Cymru fel personau y gall yr Ombwdsmon gydweithio â nhw ar fater, os yw'r mater yn ymwneud ag iechyd neu ofal cymdeithasol.</p> <p>Effaith y gwelliant hwn fydd caniatáu i'r Ombwdsmon gydweithio â Gweinidogion Cymru (hynny yw, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru sy'n arolygu materion iechyd a gofal cymdeithasol ar ran Gweinidogion Cymru) mewn perthynas ag ymchwiliadau iechyd a gofal cymdeithasol.</p> |
| 113 | <p>Section 65, page 43, line 20, leave out—</p> <p>‘(3) Where the Ombudsman considers it appropriate, the Ombudsman must—</p> <p>(a) inform the relevant specified person about the matter, and</p> <p>(b) consult the specified person in relation to it.</p> <p>(4) Where the Ombudsman consults the Children’s Commissioner for Wales, the Commissioner for Older People in Wales or the Welsh Language Commissioner’</p> <p>and insert—</p> | <p>Adran 65, tudalen 43, llinell 20, hepgorer—</p> <p>‘(3) Pan fo’r Ombwdsmon o’r farn bod hynny’n briodol, rhaid i’r Ombwdsmon—</p> <p>(a) rhoi gwybod i’r person a bennir perthnasol am y mater, a</p> <p>(b) ymgynghori â’r person a bennir mewn perthynas ag ef.</p> <p>(4) Pan fo’r Ombwdsmon yn ymgynghori â Chomisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru neu Gomisiynydd y Gymraeg’</p> <p>a mewnosoder—</p> | <p>Diben y gwelliant hwn yw egluro dyletswyddau'r Ombwdsmon i hysbysu ac ymgynghori â Chomisiynwyr etc.</p> <p>Effaith y gwelliant hwn yw y bydd yn rhaid i'r Ombwdsmon hysbysu ac ymgynghori â'r Comisiynydd perthnasol etc. pan yw'n briodol gwneud hynny (ond pan na all yr Ombwdsmon ymchwilio i fater trwy ymchwiliad ar ei liwt ei hun yn unig, rhaid i'r Ombwdsmon bob amser roi gwybod i'r Comisiynydd perthnasol etc., a rhaid iddo, pan fo hynny'n briodol, ymgynghori â'r Comisiynydd perthnasol etc.).</p> |

| | | | |
|-----|--|--|--|
| | <p>() Subject to subsection (4), where the Ombudsman considers it appropriate, the Ombudsman must—</p> <p>(a) inform the relevant specified person about the matter, and</p> <p>(b) consult the specified person in relation to it.</p> <p>() Where the Ombudsman may investigate the matter under section 4 or 44 only, the Ombudsman must—</p> <p>(a) inform the relevant specified person about the matter, and</p> <p>(b) where the Ombudsman considers it appropriate, consult the specified person in relation to it.</p> <p>() Where the Ombudsman consults a specified person, ’.</p> | <p>() Yn ddarostyngedig i is-adran (4), pan fo’r Ombwdsmon o’r farn bod hynny’n briodol, rhaid i’r Ombwdsmon—</p> <p>(a) rhoi gwybod i’r person a bennir perthnasol am y mater, a</p> <p>(b) ymgynghori â’r person a bennir mewn perthynas ag ef.</p> <p>() Pan gaiff yr Ombwdsmon ymchwilio i’r mater o dan adran 4 neu 44 yn unig, rhaid i’r Ombwdsmon—</p> <p>(a) rhoi gwybod i’r person a bennir perthnasol am y mater, a</p> <p>(b) pan fo’r Ombwdsmon o’r farn bod hynny’n briodol, ymgynghori â’r person a bennir mewn perthynas ag ef.</p> <p>() Pan fo’r Ombwdsmon yn ymgynghori â pherson a bennir ’.</p> | |
| 114 | <p>Section 66, page 44, line 2, leave out ‘matter could be the subject of an examination’ and insert—</p> <p>‘(a) complaint, or</p> <p>(b) a matter the Ombudsman is considering investigating under section 4 or 44, relates to or raises a matter which could be the subject of an investigation’.</p> | <p>Adran 66, tudalen 44, llinell 2, hepgorer ‘y gallai mater fod yn destun archwiliad’ a mewnosoder—</p> <p>‘bod</p> <p>(a) cwyn, neu</p> <p>(b) mater y mae’r Ombwdsmon yn ystyried ymchwilio iddo o dan adran 4 neu 44, yn ymwneud â mater, neu’n codi mater, a allai fod yn destun ymchwiliad’.</p> | <p>Diben y gwelliant hwn yw nodi'n fanwl gywir gwmpas pwerau'r Ombwdsmon i gydweithio â Chomisiynwyr (hynny yw, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg).</p> <p>Effaith y gwelliant hwn yw y bydd yr Ombwdsmon yn gallu gweithio gyda Chomisiynwyr eraill lle mae cwyn, neu fater y mae'r Ombwdsmon yn ystyried ymchwilio iddo gan ddefnyddio pŵer i ymchwilio ar ei liwt ei hun, yn ymwneud â mater y gallai un o'r Comisiynwyr hefyd ymchwilio iddo.</p> |

| | | | |
|-----|--|--|---|
| 115 | Section 66, page 44, line 7, leave out 'also'. | Adran 66, tudalen 44, llinell 7, hepgorer 'hefyd'. | Gwelliant canlyniadol i welliant 114 yw hwn. Mae gwelliant 114 yn mynd i'r afael â'r pwynt na ellir defnyddio'r pwerau i weithio ar y cyd ond pan fo mater y gall yr Ombwdsmon a'r Comisiynydd ymchwilio iddo, felly nid oes angen y gair "hefyd" yn yr is-adran hon. |
| 116 | Section 67, page 44, line 33, after 'matter', insert 'to which the investigation relates'. | Adran 67, tudalen 44, llinell 34, ar ôl 'mater', mewnosoder 'y mae'r ymchwiliad yn ymwneud ag ef'. | <p>Diben y gwelliant hwn yw egluro ystyr y cyfeiriad at fater yn is-adran (2)(a).</p> <p>Effaith y gwelliant hwn fydd egluro bod y cyfeiriad at fater yn is-adran (2)(a) yn gyfeiriad at y mater y mae'r ymchwiliad yn ymwneud ag ef.</p> |
| 117 | Section 68, page 45, line 10, after '23', insert 'or 56'. | Adran 68, tudalen 45, llinell 10, ar ôl '23', mewnosoder 'neu 56'. | <p>Diben y gwelliant hwn yw cymhwysu'r adran hon i wybodaeth a dderbynnir gan yr Ombwdsmon mewn cysylltiad â hysbysiadau a gafwyd gan yr Ombwdsmon o dan Ran 5 (hynny yw, hysbysiadau y mae'n rhaid i ddarparwr eu hanfon at yr Ombwdsmon sy'n nodi'r camau y mae'r darparwr wedi eu cymryd neu y mae'n bwriadu eu cymryd mewn ymateb i adroddiad Ombwdsmon, ac o fewn pa gyfnod y mae'r darparwr yn bwriadu cymryd y camau (os na chymerwyd hwy eisoes)).</p> <p>Effaith y gwelliant hwn yw na ddylid datgelu'r wybodaeth a gynhwysir mewn hysbysiadau a gafwyd o dan Ran 5 (yn ogystal â'r rhai a gafwyd o dan Ran 3), ar wahân yn yr</p> |

| | | | |
|-----|--|--|--|
| | | | amgylchiadau a bennir mewn mannau eraill yn yr adran hon. |
| 118 | Section 68, page 45, after line 24, insert— '() for the purpose of any function of the Auditor General for Wales;' | Adran 68, tudalen 45, ar ôl llinell 25, mewnosoder— '() at ddiben unrhyw un neu ragor o swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru;' | Diben y gwelliant hwn yw caniatáu i Archwilydd Cyffredinol Cymru rannu unrhyw wybodaeth berthnasol gyda'r Ombwdsmon pan fydd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Ombwdsmon yn cydweithio. Effaith y gwelliant hwn fydd caniatáu i'r Archwilydd Cyffredinol rannu gwybodaeth berthnasol gyda'r Ombwdsmon, heb ofni na allai'r Archwilydd Cyffredinol ddatgelu'r wybodaeth honno ymhellach. Mae'r gwelliant yn sicrhau y gall yr Archwilydd Cyffredinol ddatgelu'r wybodaeth honno ymhellach at ddibenion unrhyw un o swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol (ac nid yn unig at ddibenion gweithio gyda'r Ombwdsmon). |
| 119 | Section 68, page 45, line 30, leave out 'Act' and insert 'Acts'. | Adran 68, tudalen 45, llinell 31, hepgorer 'Ddeddf' a mewnosoder 'Ddeddfau'. | Diben y gwelliant hwn yw cywiro gwall teipio. Effaith y gwelliant hwn yw newid "Deddf" i "Ddeddfau" sy'n angenrheidiol oherwydd bod cyfeiriad at fwy nag un Ddeddf. |
| 120 | Section 68, page 46, line 7, leave out 'an investigation and of any report to be made under section 69' and insert 'the Ombudsman's functions under Chapters 3 and 4 of Part 3'. | Adran 68, tudalen 46, llinell 7, hepgorer 'ymchwiliad ac unrhyw adroddiad sydd i'w wneud o dan adran 69' a mewnosoder 'swyddogaethau'r Ombwdsmon o dan Benodau 3 a 4 o Ran 3'. | Diben y gwelliant hwn yw egluro cwmpas datgeliadau a ganiateir o dan yr is-adran hon. Effaith y gwelliant hwn yw y bydd yr is-adran hon yn cynnwys datgeliadau at ddibenion swyddogaethau'r Ombwdsmon o dan Benodau 3 a 4 o Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 |

| | | | |
|-----|--|--|--|
| | | | (hynny yw, at ddibenion penderfynu a ddylid ymgymryd ag ymchwiliad neu esbonio pam nad yw ymchwiliad yn cael ei wneud, neu at ddibenion ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gyhoeddi datganiadau). |
| 121 | Section 68, page 46, line 14, leave out 'Part 5 of the Data Protection Act 1998 (c.29)' and insert 'sections 142 to 154, 160 to 164 or 174 to 176 of, or Schedule 15 to, the Data Protection Act 2018 (c.12) (certain provisions relating to'. | Adran 68, tudalen 46, hepgorer llinell 15 a mewnosoder— '(a) adrannau 142 i 154, 160 i 164 neu 174 i 176 o Ddeddf Diogelu Data 2018 (p.12) (darpariaethau penodol yn ymwneud â gorfodi), neu Atodlen 15 i'r Ddeddf honno;' | Diben y gwelliant hwn yw cynnwys cyfeiriadau at Ddeddf Diogelu Data 2018, a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno. Effaith y gwelliant hwn fydd y gellir datgelu gwybodaeth am ymchwiliadau i'r Comisiynydd Gwybodaeth, pan fo'n ymddangos i'r Ombwdsmon bod y wybodaeth yn ymwneud â materion y gallai'r Comisiynydd Gwybodaeth ymchwilio iddynt o dan y Ddeddf Diogelu Data neu droseddau o dan y Ddeddf honno. |
| 122 | Section 68, page 46, after line 17, insert— '() Subsection (4)(a) has effect as if the matters to which it refers include a matter in respect of which the Information Commissioner could exercise a power conferred by a provision of Part 5 of the Data Protection Act 1998, as it has effect by virtue of Schedule 20 to the Data Protection Act 2018.' | Adran 68, tudalen 46, ar ôl llinell 17, mewnosoder— '() Mae is-adran (4)(a) yn cael effaith fel pe bai'r materion y mae'n cyfeirio atynt yn cynnwys mater y gallai'r Comisiynydd Gwybodaeth arfer, mewn perthynas ag ef, bŵer a roddir gan ddarpariaeth yn Rhan 5 o Ddeddf Diogelu Data 1998, fel y mae'n cael effaith yn rhinwedd Atodlen 20 i Ddeddf Diogelu Data 2018.' | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 121. |
| 123 | Section 68, page 46, leave out lines 19 to 20 and insert— | Adran 68, tudalen 46, hepgorer llinellau 19 hyd at 20 a mewnosoder— | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 121. |

| | | | |
|-----|--|--|--|
| | ‘() a provision of the Data Protection Act 2018 (c.12) other than paragraph 15 of Schedule 15 to that Act (obstruction of execution of warrant etc);’. | ‘() darpariaeth yn Neddf Diogelu Data 2018 (p.12) heblaw paragraff 15 o Atodlen 15 i’r Ddeddf honno (rhwystro gweithredu gwarant);’. | |
| 124 | Section 70, page 47, after line 8, insert— ‘(ii) section 21 as modified by section 22; (iii) sections 21 and 22 as they apply to special reports (see section 28(6));’. | Adran 70, tudalen 47, ar ôl llinell 7, mewnosoder— ‘(ii) adran 21 fel y’i haddasir gan adran 22; (iii) adrannau 21 a 22 yn yr un modd ag y maent yn gymwys i adroddiadau arbennig (gweler adran 28(6));’. | Diben y gwelliant hwn yw egluro pa gyhoeddiadau sydd wedi’u diogelu rhag hawliadau difenwi. Effaith y gwelliant hwn fydd egluro, pan fo darparwr gofal iechyd yn cydymffurfio â’r ddyletswydd i roi cyhoeddusrwydd i adroddiad Ombwdsmon (gan gynnwys adroddiad arbennig), bod y cyhoeddiad hwnnw gan y darparwr gofal iechyd wedi’i ddiogelu rhag hawliadau difenwi. |
| 125 | Section 70, page 47, line 9, after ‘with’, insert ‘a complaint or’. | Adran 70, tudalen 47, llinell 8, hepgorer ‘ag’ a mewnosoder ‘â chwyn neu’. | Diben y gwelliant hwn yw egluro pa gyhoeddiadau sydd wedi’u diogelu rhag hawliadau difenwi. Effaith y gwelliant hwn yw y bydd cyhoeddi materion sy’n gysylltiedig â chwynion (hyd yn oed lle nad oes unrhyw ymchwiliad) yn cael eu hamddiffyn rhag hawliadau difenwi. |
| 126 | Section 70, page 47, line 18, after ‘with’, insert ‘a complaint or’. | Adran 70, tudalen 47, llinell 16, hepgorer ‘ag’ a mewnosoder ‘â chwyn neu’. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 125. |
| 127 | Section 70, page 47, line 27, after ‘with’, insert ‘a complaint or’. | Adran 70, tudalen 47, llinell 24, hepgorer ‘ag’ a mewnosoder ‘â chwyn neu’. | Yr un yw diben ac effaith y gwelliant hwn â diben ac effaith gwelliant 125. |

| | | | |
|-----|---|--|--|
| 128 | <p>Page 48, line 21, leave out section 72 and insert—</p> <p>[] Review of Act</p> <p>(1) An Assembly committee must, as soon as practicable after the end of the 5 year period, lay before the Assembly a report on the operation and effect of this Act during the 5 year period.</p> <p>(2) An Assembly committee may lay before the Assembly a report on the operation and effect of this Act at any time.</p> <p>(3) In preparing a report under this section, the Assembly committee must consult such persons as the Assembly committee considers appropriate.</p> <p>(4) In this section, “the 5 year period” means the period of 5 years beginning with the day this Act receives Royal Assent.’.</p> | <p>Tudalen 48, llinell 20, hepgorer adran 72 a mewnosoder—</p> <p>[] Adolygiad o’r Ddeddf</p> <p>(1) Rhaid i bwyllgor Cynulliad, cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ddiwedd y cyfnod 5 mlynedd, osod gerbron y Cynulliad adroddiad ar weithrediad ac effaith y Ddeddf hon yn ystod y cyfnod 5 mlynedd.</p> <p>(2) Caiff pwyllgor Cynulliad osod gerbron y Cynulliad adroddiad ar gweithrediad ac effaith y Ddeddf hon ar unrhyw adeg.</p> <p>(3) Wrth baratoi adroddiad o dan yr adran hon, rhaid i’r pwyllgor Cynulliad ymgynghori â’r cyfryw bersonau sydd, ym marn y pwyllgor Cynulliad, yn briodol.</p> <p>(4) Yn yr adran hon, ystyr “y cyfnod 5 mlynedd” yw’r cyfnod o 5 mlynedd sy’n dechrau â’r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.’.</p> | <p>Diben y gwelliant hwn yw ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgor Cynulliad adolygu'r Ddeddf.</p> <p>Effaith y gwelliant hwn fydd gofyn i Bwyllgor Cynulliad gyflwyno adroddiad ar weithrediad ac effaith y Ddeddf, ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau sydd, ym marn Pwyllgor Cynulliad, yn briodol. Rhaid i Bwyllgor y Cynulliad adrodd ar y Ddeddf cyn gynted ag y bo'n ymarferol bum mlynedd ar ôl i'r Ddeddf gael y Cydsyniad Brenhinol, a gall adrodd ar unrhyw adeg arall.</p> |
| 129 | <p>Section 74, page 49, line 4, leave out—</p> <p>‘(investigations commenced before sections 3, 4, 43 and 44 come into force);</p> <p>(b) section 35 of the 2005 Act continues to have effect.</p> <p>(2) Schedule 5 (consequential amendments)’</p> <p>and insert—</p> | <p>Adran 74, tudalen 49, llinell 5, hepgorer—</p> <p>‘(ymchwiliadau a gychwynnir cyn y daw adrannau 3, 4, 43 a 44 i rym);</p> <p>(b) mae adran 35 o Ddeddf 2005 yn parhau i gael effaith.</p> <p>(2) Mae Atodlen 5 (diwygiadau canlyniadol)’</p> <p>a mewnosoder—</p> | <p>Diben y gwelliant hwn yw arbed darpariaethau penodol yn Neddf 2005 rhag cael eu diddymu.</p> <p>Effaith y gwelliant hwn yw na fydd paragraffau 9(4) ac 11(4) o Atodlen 1, ac Atodlen 6, i Ddeddf 2005 yn cael eu diddymu. Mae'r darpariaethau hyn wedi gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth arall ac mae angen i'r newidiadau hynny oroesi a pharhau i fod yn gymwys pan fydd y Bil yn dod yn Ddeddf.</p> |

| | | | |
|-----|---|--|--|
| | <p>'of this Act (investigations commenced before sections 3, 4, 42 and 43 of this Act come into force);</p> <p>(b) subsection (1) does not apply to—</p> <p>(i) paragraphs 9(4) and 11(4) of Schedule 1 to the 2005 Act (which amend the Superannuation Act 1972 (c.11)) and section 1 of the 2005 Act (to the extent that it gives effect to paragraphs 9(4) and 11(4) of the 2005 Act);</p> <p>(ii) Schedule 4 to the 2005 Act (which amends the Local Government Act 2000 (c.22)) and section 35 of the 2005 Act (which gives effect to Schedule 4 to the 2005 Act);</p> <p>(iii) Schedule 6 to the 2005 Act (consequential amendments) and section 39(1) of the 2005 Act (which gives effect to Schedule 6 to the 2005 Act);</p> <p>(iv) the extent that it would revoke any subordinate legislation (within the meaning of section 21(1) of the Interpretation Act 1978 (c.30)) made under the 2005 Act.</p> <p>() Schedule 5 (which makes consequential amendments of primary legislation in consequence of this Act)'. </p> | <p>'o'r Ddeddf hon (ymchwiliadau a gychwynnir cyn y daw adrannau 3, 4, 42 a 43 o'r Ddeddf hon i rym);</p> <p>(b) nid yw is-adran (1) yn gymwys i —</p> <p>(i) paragraffau 9(4) ac 11(4) o Atodlen 1 i Ddeddf 2005 (sy'n diwygio Deddf Blwydd-daliadau 1972 (p.11)) ac adran 1 o Ddeddf 2005 (i'r graddau y mae'n rhoi effaith i baragraffau 9(4) ac 11(4) o Ddeddf 2005);</p> <p>(ii) Atodlen 4 i Ddeddf 2005 (sy'n diwygio Deddf Llywodraeth Leol 2000 (p.22)) ac adran 35 o Ddeddf 2005 (sy'n rhoi effaith i Atodlen 4 i Ddeddf 2005);</p> <p>(iii) Atodlen 6 i Ddeddf 2005 (diwygiadau canlyniadol) ac adran 39(1) o Ddeddf 2005 (sy'n rhoi effaith i Atodlen 6 i Ddeddf 2005);</p> <p>(iv) y graddau y byddai'n dirymu unrhyw is-ddeddfwriaeth (o fewn ystyr adran 21(1) o Ddeddf Dehongli 1978 (p.30)) a wneir o dan Ddeddf 2005.</p> <p>() Mae Atodlen 5 (sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol o ganlyniad i'r Ddeddf hon)'. </p> | <p>Mae'r gwelliant hefyd yn arbed unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf 2005, eto oherwydd bod yn rhaid i'r is-ddeddfwriaeth honno oroesi a pharhau i fod yn gymwys pan ddaw'r Bil yn Ddeddf.</p> |
| 130 | <p>Section 75, page 49, line 9, leave out—</p> <p>'come into force in accordance with provision made by the Welsh Ministers by regulations.'</p> | <p>Adran 75, tudalen 49, llinell 10, hepgorer—</p> <p>'yn dod i rym yn unol â darpariaeth a wneir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau.'</p> <p>a mewnosoder—</p> | <p>Diben y gwelliant hwn yw egluro pa adrannau sy'n dod i rym pan fydd y Bil yn cael y Cydsyniad Brenhinol a pha adrannau sy'n dod i rym pan fydd Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau cychwyn.</p> |

| | | | |
|-----|--|---|---|
| | <p>and insert—</p> <p>‘, and the Schedules to this Act, come into force in accordance with provision made by the Welsh Ministers by regulations.</p> <p>() This section and sections 76 to 80 come into force on the day this Act receives Royal Assent.’.</p> | <p>‘, a’r Atodlenni i’r Ddeddf hon, yn dod i rym yn unol â darpariaeth a wneir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau.</p> <p>() Mae’r adran hon ac adrannau 76 i 80 yn dod i rym ar y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.’.</p> | <p>Effaith y gwelliant hwn yw egluro bod yr Atodlenni i’r Bil yn dod i rym pan fydd Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau cychwyn sy’n dod â’r Atodlenni i rym.</p> <p>Mae’r gwelliant hefyd yn nodi’n union pa adrannau sy’n dod i rym pan fydd y Bil yn cael y Cydsyniad Brenhinol.</p> |
| 131 | <p>Section 76, page 50, after line 10, insert—</p> <p>“enactment” (“<i>deddfiad</i>”) means an enactment (whenever enacted or made) which is, or contained in—</p> <p>(a) an Act or a Measure of the Assembly,</p> <p>(b) an Act of Parliament, or</p> <p>(c) subordinate legislation (within the meaning of section 21(1) of the Interpretation Act 1978 (c.30)) made under—</p> <p>(i) an Act or a Measure of the Assembly, or</p> <p>(ii) an Act of Parliament.’.</p> | <p>Adran 76, tudalen 51, ar ôl llinell 35, mewnosoder—</p> <p>‘ystyr “deddfiad” (“<i>enactment</i>”) yw deddfiad (pa bryd bynnag y’i deddfwyd neu y’i gwnaed) sy’n un o’r canlynol neu sydd wedi’i gynnwys mewn un o’r canlynol—</p> <p>(a) Deddf neu Fesur Cynulliad,</p> <p>(b) Deddf Seneddol, neu</p> <p>(c) is-ddeddfwriaeth (o fewn ystyr adran 21(1) o Ddeddf Dehongli 1978 (p.30)) a wneir o dan—</p> <p>(i) Deddf neu Fesur Cynulliad, neu</p> <p>(ii) Deddf Seneddol.’.</p> | <p>Diben y gwelliant hwn yw mewnosod diffiniad newydd o “deddfiad”.</p> <p>Effaith y gwelliant hwn yw bod unrhyw gyfeiriad at ddeddfiad yn y Bil yn golygu deddfiad mewn Deddf y Cynulliad, Bil Cynulliad, Deddf Seneddol neu unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf y Cynulliad, Bil Cynulliad neu Ddeddf Seneddol. Gweler hefyd welliant 139.</p> |
| 132 | <p>Section 76, page 50, line 16, after ‘3’, insert ‘of this Act’.</p> | <p>Adran 76, tudalen 51, llinell 10, ar ôl ‘3’, mewnosoder ‘o’r Ddeddf hon’.</p> | <p>Diben y gwelliant hwn yw egluro ystyr y cyfeiriad at “Rhan 3” yn y diffiniad o “darparwr gwasanaeth iechyd teulu yng Nghymru”.</p> <p>Effaith y gwelliant hwn fydd egluro bod y cyfeiriad at Ran 3 yn gyfeiriad at Ran 3 o’r Bil.</p> |
| 133 | <p>Section 76, page 50, leave out lines 26 to 27.</p> | <p>Adran 76, tudalen 51, hepgorer llinellau 22 hyd a 24.</p> | <p>Diben y gwelliant hwn yw dileu geiriad dianghenraid.</p> |

| | | | |
|-----|---|--|---|
| | | | Effaith y gwelliant hwn fydd gwella eglurder ac osgoi dyblygu is-adran (7) o'r adran hon. |
| 134 | Section 76, page 50, after line 31, insert— “in writing” (“ <i>yn ysgrifenedig</i> ”) includes in electronic form;’. | Adran 76, tudalen 53, ar ôl llinell 2, mewnosoder— ‘mae “yn ysgrifenedig” (“ <i>in writing</i> ”) yn cynnwys ar ffurf electronig;’. | Diben y gwelliant hwn yw cynnwys diffiniad newydd o “yn ysgrifenedig”. Effaith y gwelliant hwn yw y gellir gwneud unrhyw beth y mae modd ei wneud “yn ysgrifenedig” o dan y Bil ar ffurf electronig fel e-bost. |
| 135 | Section 76, page 50, line 35, leave out ‘a complaint under’ and insert ‘an investigation under Part 3 of’. | Adran 76, tudalen 50, llinell 20, hepgorer ‘cwyn o dan y’ a mewnosoder ‘ymchwiliad o dan Ran 3 o’r’. | Diben y gwelliant hwn yw adlewyrchu'r ffaith y gall yr Ombwdsmon ymchwilio i fater hyd yn oed lle nad oes cwyn wedi'i gwneud. Effaith y gwelliant hwn fydd egluro bod y cyfeiriad at “camau gweithredu” yn y diffiniad o “darparwr annibynnol yng Nghymru” yn gyfeiriad at gamau sy'n destun ymchwiliad (a allai fod wedi cael ei chychwyn gan gŵyn neu beidio). |
| 136 | Section 76, page 51, line 4, after ‘examination’, insert ‘, inquiry or review’. | Adran 76, tudalen 52, llinell 26, ar ôl ‘archwiliad’, mewnosoder ‘, ymchwiliad neu adolygiad’. | Diben y gwelliant hwn yw cynnwys ymholiadau ac adolygiadau o fewn y diffiniad o “ymchwiliad” fel y mae'n berthnasol yn y Bil i bersonau heblaw'r Ombwdsmon. Effaith y gwelliant hwn fydd adlewyrchu'r ffaith bod y defnydd o “ymchwiliad” yn y Bil yn casglu archwiliadau, ymholiadau ac adolygiadau a gynhelir gan bersonau eraill (fel |

| | | | |
|-----|--|--|--|
| | | | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Gweinidogion Cymru etc.). Gweler hefyd welliant 111. |
| 137 | Section 76, page 52, leave out lines 1 to 2. | Adran 76, tudalen 51, hepgorer llinellau 39 hyd at 40. | Gwelliant canlyniadol i welliant 23 yw hwn. Dileodd y gwelliant hwnnw gyfeiriad at “gwasanaethau iechyd preifat” ac felly nid oes angen y diffiniad hwnnw bellach. |
| 138 | Section 76, page 52, leave out lines 3 to 12. | Adran 76, tudalen 51, hepgorer llinellau 25 hyd a 35. | Gwelliant canlyniadol i welliant 23 yw hwn. Dileodd y gwelliant hwnnw gyfeiriad at “darparwr gwasanaethau iechyd preifat” ac felly nid oes angen y diffiniad hwnnw bellach. |
| 139 | Section 78, page 55, after line 15, insert— () Regulations under subsection (1) may amend, revoke or repeal any enactment (including any enactment contained in or made under this Act).’. | Adran 78, tudalen 55, ar ôl llinell 16, mewnosoder— () Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) ddiwygio, dirymu neu ddiddymu unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys unrhyw ddeddfiad sydd wedi’i gynnwys yn y Ddeddf hon neu a wneir o dan y Ddeddf hon).’. | Diben y gwelliant hwn yw rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n diwygio etc. unrhyw ddeddfiad, gan gynnwys deddfiad yn y Bil hwn. Effaith y gwelliant hwn (ynghyd â'r diffiniad newydd o “deddfiad” a fewnosodir gan welliant 131) fydd y gall Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer i wneud darpariaethau trosiannol etc. i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol. |
| 140 | Section 78, page 55, line 19, leave out subsection (3). | Adran 78, tudalen 55, llinell 20, hepgorer is-adran (3). | Diben y gwelliant hwn yw dileu'r gofyniad i ddarllen cyfeiriadau yn y ddeddfwriaeth at yr Ombwdsmon a sefydlwyd o dan Ddeddf 2005 fel cyfeiriadau at yr Ombwdsmon sy'n parhau o dan y Bil. |

| | | | |
|-----|--|---|---|
| | | | Effaith y gwelliant hwn fydd na fydd yr is-adran hon yn ymdrin â chyfeiriadau o'r fath (yn hytrach, ymdrinnir â hwy yn fanylach yng ngwelliannau 155 i 170). |
